

CLONC

golygydd@clonc.co.uk

ISSN 1753-1071



Rhifyn 255 - 50c
Gorffennaf 2007

Papur Bro ardal plwyfi: Cellan, Llanbedr Pont Steffan, Llanbedr Wledig, Llanfair Clydogau, Llanybyddi, Llanllwni, Llanwenog, Llanwnnen, Llanybydder, Llanycrwys ac Uwch Gaeo a Phencarreg

Pobl y Pethe



Aelodau Eglwys Shiloh Llanbedd gyda ffrindiau o Eglwysi eraill ar daith i'r Gŵyr. Yn y llun wrth golofn y Diwygiwr Evan Roberts yng Nghapel Moriah Casllwchwr mae Twynog a David Davies, Delfryn James, Owen Jones a'r Parch Elwyn Jenkins.



Sali Mali ar ymweliad â Diwrnod Hwyl Llanllwni (mwy o luniau tu fewn).




Tîm pêl-droed Teifi Girls yn ennill twrnament pêl-droed 7 bob ochr yn Aberaeron.

Papur Poblogaidd

'Cadarnhaol iawn' oedd ymateb darllenwyr CLONC i'r holiadur a gyhoeddwyd yn rhifyn Chwefror. Bu Guto Jones o'r Prosiect Papurau Bro yn dadansoddi'r ymatebion ac yn adrodd nôl i'r Bwrdd Busnes yn yng Nghyfarfod Blynnyddol y papur.

Siart o farn y darllenwyr am gynnwys CLONC




Dywedodd 100% o'r rhai a ymatebodd eu bod yn gweld cynnwys y papur yn ddiddorol gyda 54% o'r rheiny yn credu fod cynnwys y papur yn ddiddorol iawn. Roedd canmoliaeth i ansawdd y lluniau hefyd gyda 100% yn teimlo fod y lluniau'n glir neu'n glir iawn. Diddorol oedd sylwi fod 31% eisiau gweld mwy o luniau.

Ymhlith y testunau yr hoffai mwyafrif y darllenwyr weld mwy ohonynt oedd 'Amaeth', 'Portreadau', 'Posau', 'Hanes lleol' a 'Chwaraeon'. Byddai'n braf gallu cyflawni hyn, felly os hoffai rywrai gyfrannu erthyglau, byddai'n braf clywed gennych. Cysylltwch ag un o'r bwrdd busnes.

Mynegodd 92% fod CLONC yn rhwydd i'w ddarllen a'r 8% arall yn canfod CLONC yn ddarllenadwy.

Siart o farn y darllenwyr am bris CLONC



O ran y pris, dywedodd 38% fod y papur yn rhesymol iawn a dywedodd 62% ei fod yn rhesymol. Yn wir, nid yw pris CLONC wedi codi ers blynnyddoedd, er fod argraffu mewn lliw wedi ychwanegu at y costau. Dengys yr ymchwil fod hyn wedi bod yn syniad da. Roedd 100% o'r rhai a ymatebodd yn hoffi'r cloriau lliw.

O ystyried hyn oll, gellir codi pris y papur, ond penderfynwyd yn y cyfarfod blynnyddol i gadw'r pris yn 50c y copi am flwyddyn arall o leiaf.

Diolch i bawb a aeth i'r ymdrech i lenwi'r holiadur. Dyma'r tro cyntaf i bapur bro CLONC wneud hyn. Dywedodd Dylan y Cadeirydd 'Rhaid i ni weld a yw'r papur yn apelio er mwyn cynllunio ar gyfer y dyfodol'.

Croesawir sylwadau am bob rhifyn. Cysylltwch ag un o'r Bwrdd Busnes, neu danfonwch eich sylwadau ar e-bost at golygydd@clonc.co.uk.

Pwy yw pwy?

Beth yw beth?

Golygyddion:			
Gorffennaf a Medi e-bost:	Dylan Lewis, Tŷ Cerrig, Cwmann golygydd@clonc.co.uk	422349	Trysorydd e-bost: Nia Davies, Maesglas, Drefach ysgrifennydd@clonc.co.uk 480015
Tîm Golygyddol:	Eifion ac Yvonne Davies, Elaine Davies, Rhian Jones, Dylan Lewis a Marian Morgan		Swyddog Dosbarthu Eifion Davies, Afallon, Drefach e-bost: bedwyr@btopenworld.com 480590
			Teipyddion Nia Wyn, Maesglas Joy Lake, Llanbed 480015
Gohebwy'r Lleol:			
Cellan	Meinir Evans, Rhydfechan	421359	Ceidwad y Camera Janet Evans, Haulfryn, Llanbed 422856
Cwmann	Gwyneth Morgan, Llety'r Dderwen	422922	Ffotograffydd Tim Jones, Llainwen 422644
Cwmsychbant	Mary Davies, Maesglas, Drefach	480015	Argraffwyr Gwasg Aeron, Aberaeron 01545 570573
Llanwenog/Drefach	Mary Davies neu Eifion Davies		
Ffaldybrenin/Ffarmers	Elfyn Davies, Troed y bryn, Ffarmers	01558 650507	Prosiect Papurau Bro Ceredigion a Sir Benfro:
Gorsgoch	Eiddwen Hatcher, Tafarn Cefnhafod	434238	Siân Jones 23 Stryd Fawr, Llanbed 423410
Llanbed	Janet Evans, Haulfryn	422856	Guto Jones 36-38, Pendre, Aberteifi 01239 621828
Llanfair	Dan ac Aerwen Griffiths, Pengarn	493407	
Llangybi a Betws	Iorwerth Evans, Greenwell	493484	
Llanllwni	Dewi Davies, Glanafon	480218	
Llanwnnen	Meinir Ebbsworth, Brynamlwg	480453	
Llanybydder	Menna Jones, Ceginau Lifestyle	480257	
Pencarreg	Linda Thomas, Dolgwm Uchaf	422270	
Bwrdd Busnes:			
Cadeirydd e-bost:	Dylan Lewis, Tŷ Cerrig, Cwmann cadeirydd@clonc.co.uk	422349	
Is-Gadeirydd	Twynog Davies, Frondolau, Llanbed	422880	
Ysgrifenyddes	Mary Davies, Maesglas, Drefach	480015	

Gwerthfawrogi'r gwaith pob gwirfoddolwr a sicrhodd ymddangosiad y rhifyn hwn o Clonc. Os hoffai eraill ymuno â'r tîm, cysylltwch ag aelod o'r bwrdd busnes. Mae cyfraniad pob un yn bwysig.

- Mae rhannau o Clonc ar y we ar safle Cymru'r Byd y BBC: www.bbc.co.uk/cymru/canolbarth/papurau_bro/clonc
- Sicrhewch newyddion eich ardal chi yn Clonc. Peidiwch â meddwl y bydd rhywun arall yn gwneud. Mae'n rhy hwyr i feio neb os nad yw rhywbeth yn ymddangos yn CLONC.
- Ewch a'ch newyddion at eich gohebydd lleol.
- Gellir gadael newyddion tu ôl y cownter yn siop bapurau Caxton Hall, Llanbed.
- Gellir e-bostio newyddion at y golygydd yn syth: golygydd@clonc.co.uk
- Mae croeso i chi ddefnyddio eich camera eich hun. Defnyddiwn luniau o gamera cyffredin lliw, a du a gwyn. Ni fyddwn yn dychwelyd lluniau os na fyddwch wedi gwneud cais am hyn ar gefn y llun.
- Croesawn luniau digidol ar ddisg neu CD, ac e-bost i cadeirydd@clonc.co.uk.
- Gofynnwn am dâl o £5.00 am roi "Diolch" yn y papur.

Siprys

Diflas.

Mae cael cymaint o law mewn amser mor fyr wedi creu problemau di-ri i lawer. Mae'n rhyfedd fel mae tre Llanbed wedi dioddef mor aml. Disgynnodd dros fodfedd o law y bore yma mewn tair awr. Anodd ofnadwy yw cael gwared ar ddŵr mor drwm mewn byr amser. Rydym yn dioddef hefyd am ddilyn cyfarwyddiadau lle mae creu mynedfeydd i'r anabl yn y cwestiwn. Mae sawl enghraifft yn ddiweddar o hwyluso mynediad i gadair olwyn wedi galluogi'r llifogydd i gael mynediad hefyd.

Rhannu 'Chips'.

Dau ffrind yn cerdded adre yn Aberystwyth, a dyn yn dod i'w cyfarfod a chwdyn o 'chips' yn ei law. Wrth iddo agosáu agorodd ei gôt a dangos ei hun yn anwedus. "Hoffech chi shario hon gyda fi", meddai. "Na, dim diolch," oedd ateb un o'r merched, "buasai'n well gennyf shario dy chips di!" Ateb call iawn ac yn rhoi'r dyn yn ei le, a gwneud iddo deimlo'n dipyn o ffŵl. Dim creu ffws ofnadwy a rhoi arian yn nwylo cyfreithwyr.

Pla y ffôn symudol.

Mae'n mynd o ddrwg i waeth. Sylwoch chi faint o bobl sy'n cario ffôn symudol yn eu llaw drwy'r amser. Ambell un yn cerdded o amgylch archfarchnad ac mewn cysylltiad a rhywun yn rhywle drwy'r amser, cyn rhoi dim byd yn y fased. Un arall mewn caffi yn tecstio ac yn bwyta bywyd yr un pryd. Beth yn y byd oeddem ni'n ei wneud cyn dyfodiad y ffôn symudol, - o

'rwy'n cofio, - ro'n ni'n siarad â'n gilydd.

"O'm dolur, ymdawelaf"

Dyma eiriau row'n ni'n cysylltu ag Ystrad Fflur bob amser – ond dim mwyach. Wrth ymweld â'r lle yn ddiweddar sylwi ar gwsr 'scramblers' un ochr i'r ffordd ac wedyn y distawydd yn cael ei dorri gan geir rasio yn mynd fel cathod i gythraul o amgylch trac, proffesiynol iawn yr olwg, ochr arall i'r ffordd. Na, dwy' ddim eisiau amharu ar bleser y darpar 'Hamiltons'. Trueni hefyd fod yn rhaid iddynt amharu ar lonyddwch yr Abaty a'r gwasanaethau yn yr Eglwys a'r rhai sy'n dod i'r wlad i chwilio am lonyddwch.

Prydferthwch ynghanol y glaw.

Yn lle cwyno am bopeth o hyd rhaid llongyfarch Llanbed am addurno'r dref gyda chymaint o flodau. Roeddwn yn gwyllo'r blodau yn cael eu gosod yn eu lle y bore, a'r dilyw yn dilyn ymhen ychydig oriau. Gobeithio erbyn daw'r rhifyn yma allan fod yr haul wedi cofio amdanom.

Hwyl - Cloncyn

HYSBYSEBU YN CLONC
"Mae mwy a mwy yn gweld gwerth mewn hysbysebu yn y Papur Bro."
Amcangyfrifir bod tua 3,000 o bobl yn darllen CLONC.
£10.00 am floc bach.
£25.00 am chwarter tudalen.
£50.00 am flwyddyn o flociau bach.
Cysylltwch ag Ysgrifenyddes CLONC am ragor o wybodaeth:
01570 480015
ysgrifennydd@clonc.co.uk

Busnesa Swyddi diddorol ein pobol ifanc gan Twynog Davies

Dau Frawd

Dau gyfeiriad gwbl wahanol

Ni ymddangosodd rhan olaf erthyl Twynog Davies am y ddau frawd Dorian a Wyn, yn y rhifyn diwethaf. Ymddiheuriadau am hyn. Dyma'r ychydig a gollwyd sy'n son am



Dorian, er mwyn ceisio gwneud iawn am hynny.

Yn 2001, gadawodd y Bae a'r Cynulliad a derbyn swydd gyda BBC Cymru yn Llandaf - yn gyntaf, fel Cyfieithydd ond erbyn hyn yn Is-Gynhyrchydd Datblygu Darlledu. Rhan o'i waith yw chwilio am straeon cymunedol fyddai'n addas ar gyfer holl adrannau BBC Cymru – o Radio Cymru, Radio Wales a thîm y We i'r adran Newyddion. Mae yna bwyslais mawr erbyn hyn i fynd allan i'r cymunedau i ddarlledu fel y profwyd yn ddiweddar yn Llanbed, wrth i Radio Cymru ddathlu gyda'r swyddogion, pen-blwydd CLONC yn bump ar hugain oed. Yn ystod wythnos yr Eisteddfod Genedlaethol, bydd Dorian yn gweithio yn ddiwyd gefn llwyfan gyda'r tîm cynhyrchu, a fawr o gyfle i weld yr Eisteddfod!

Mae'n hoff iawn o deithio ac yn gobeithio ymweld â phob prifddinas yn Ewrop cyn iddo gyrraedd ei ben-blwydd yn 40 - mae ganddo ryw ddeng mlynedd i fynd eto!! Mae yn hoff iawn o ddarllen ac o fwyta yn enwedig bwyd ei fam!

Nid yw Dorian mor uchelgeisiol â'i frawd mawr yn gwir mwynhau ei waith a chyfarfod lluo o bobl yw'r peth pwysicaf iddo. Mae wrth ei fodd bod mewn swyddfa gyda chydweithwyr sydd â chynifer o brofiadau gwahanol – rhai yn newyddiadurwyr profiadol – eraill wedi cynhyrchu rhaglenni teledu o'r jyngl yn Borneo!

Pob dymuniad da i'r ddau ohonynt.

Cystadleuaeth Sticer Car CLONC

Ydych chi'n arddangos eich sticer ar eich car? Heb gael un? Neu eisiau un arall? Cysylltwch ag un o'r Bwrdd Busnes. Mae nifer o'r sticeri ar ôl.

Braf gweld llawer o geir yr ardal yn arddangos y sticeri. Llauer o bobl felly â'r cyfle i ennill £10 bob mis am wneud hynny yn ystod eleni, blwyddyn dathlu pen-blwydd Clonc yn chwarter canrif.

Llongyfarchiadau i Hyw a Eva Davies, Ornant, Llanwnnen ar ennill £10 yn y rhifyn diwethaf.

Rhif car yr enillydd lwcus y mis hwn yw **N360 YEJ**. Mae gennych ddeg diwrnod o ddyddiad cyhoeddi'r rhifyn hwn i hawlio'ch gwobr. Cysylltwch ag un o'r Bwrdd Busnes cyn gynted â phosib.

GAIR CAREDIG gan Ddarllenwr

.. 'Rwy'n prynu Clonc yn rheolaidd yn Aberaeron ac yn mwynhau ei ddarllen yn fawr ac roedd rhifyn Mehefin yn arbennig o ddiddorol a lliwgar'..

Gorffennaf

1982 Llanbed – Aelodau'r Urdd yn croesawu côr o Toronto. Llangybi – Capel Ebeneser yn derbyn 8 o aelodau ifainc. Cwmann – Cystadleuaeth cneifio yn Gellidewi-uchaf. Tommy Price a Cerdin Price yn mynd â'r gwobrau. Llythyr di-enw o Lanwnnen! "Neges dros 8 o drigolion:- Mae yn ddrwg calon gennyf na fedraf brynu copi arall o 'Clonc' – nid oes dim newydd ynddo, ac mae ei bris yn gwbl afresymol. Mae yma ormod o bapurau bro yn barod."

1983 Hanes a lluniau Gŵyl Cyhoeddi Eisteddfod Genedlaethol 1984 Cwmann – Gwyn Williams, Wyngarth yn dod o hyd i gopi o 'Western Mail' Tachwedd 1895 wrth atgyweirio'r hen ficerdy. Roedd 31 o Aelodau Seneddol Cymreig yn pwyso ar Mr Asquith am fesur o hunan-lywodraeth i Gymru!

1984 Llanbed - Dathlu Canmlwyddiant Siarter y Maer : Ffair Dalis – lluniau'r dathlu. Plant ysgol Ffynnonbedr ar y teledu – Rhaglen 'Cofio Idwal'. Llanllwni – Mr Enoch Thomas, Arnant – diacon yng Nghapel Nonni ers 40 mlynedd.

1985 Cinio 'Clonc' yng Nghegin Sion Cwilt. Llanwnnen – Gwasanaeth arbennig yng Nghapel y Groes i lansio llyfr Frank Evans sy'n sôn am ei brofiadau fel carcharor rhyfel yn Japan. Llanybydder – Elwyn Davies, Fronlas yn derbyn y BEM am ei wasanaeth i amaethyddiaeth.

1986 Llanwnnen – Caradog Jones yn derbyn y BEM. Llanbed – Sefydliad y Merched yn dathlu 70 mlynedd. Rosemary Davies yn cyflwyno Baner (o'i gwaith ei hun) i gangen Merched y Wawr.

1987 Llanllwni – Rhys Llewelyn yn cymeryd rhan yn 'Hannibal a'r Heslop' gyda'r BBC. Llanbed - Aelodau'r Ford Gron yn beicio o Land's End i John o'Groats. Llanybydder – Aelodau'r Merched y Wawr yn creu baner i'r gangen. Cwmann - Yr Athro Cyril Williams, Cae'r Nant, yn datgan fod angen pafin yn Cwmann.

1988 Llanbed – Dyn o Gei Newydd yn gobeithio cychwyn sinema unwaith eto yn y Neuadd Fictoria – ar ôl 25 mlynedd. (Ond beth ddigwyddodd?!) Ffilmio 'We are Seven' yn Llanddewi-brefi. Nifer o'r ardal hon yn cymeryd rhan fel 'extras'. M.Y.W. – Eryl Jones, Llanbed yn Drysorydd Cenedlaethol Merched y Wawr.

1989 Chworiorydd 12 o gapeli Annibynwyr Cylch Llanbed yn cynnal noson 'Mefus a Hufen' yn Neuadd Cwmann, er mwyn codi arian i Canolbarth America. Cwmann – Côr Cwmann a'r Cylch yn 25 Mlynedd oed. Cellan – Sally Price, gynt o Waunlluest yn derbyn y BEM. Llanwnnen – Y tîm criced yn cael chwarae ar gae Maesllan.

1990 Yr Ysgol Gyfun – yn cynnal arbrawf; 'Wythnos Werdd'. Y disgyblion yn holi'r gymdogaeth am eu barn. Llanybydder - Sefydliad y Merched yn dathlu 50. Llanwenog – Sian James, aelod o C.Ff.I. Llanwenog yn Frenhines Rali Ceredigion, a Gareth Morgan yn Ffermwr Ifanc y Flwyddyn.

1991 Cwmann – Côr Cwmann ar daith i Toronto. Llanwenog – C.Ff.I. yn ennill Cwpan Gwynne Davies am y 10fed tro yn olynol, am ennill y nifer fwyaf o bwyntiau yn ystod y flwyddyn.

1992 Cwmann – C.Ff. I. yn gwthio 'Diamwnt' enfawr dros 180 cilomedrau i godi arian i ysbytai Bronglais, Glangwili a Singleton.

Llanbed – Dewiswyd Anwen Butten yn aelod o dîm bowllo merched Cymru am y 5ed gwaith, a Jeff Edwards yn aelod o dîm y dynion am y 6ed tro.

1993 Blwyddyn codi arian at Apêl Syr Geraint Evans i Ysbyty'r Galon yn y Waun, Caerdydd. Llanbed – Aelodau 'Amnest Rhyngwladol' yn plannu blodau 'Nad fi'n angof' (Forget-me-not) o gwmpas y dref. Yr Ysgol Gyfun – Cyfle i'r disgyblion ddysgu Siapanaeg. Llanwenog – C.Ff.I. yn ennill y Rali yn Nhalybont – y tro cyntaf ers 1967, a Cwpan Gwynne am y 12fed tro.

1994 Llanbed – Meinir, merch Edwin a Beryl Jones, yn Faer tref Llandrindod Huw Evans yn rhoi adroddiad o'i brofiadau yn Glastonbury. Clonc yn derbyn rhoddion ariannol o sawl cyfeiriad.

1995 50 mlynedd ers diwedd yr Ail Ryfel Byd. Trefnwyd nifer o weithgareddau yn y dref ac aml i bentref er mwyn cofio.

Llanbed – Dadorchuddio cofeb i Idwal Jones yn Rhosllwyn

1996 Llangybi – Ysgol y Dderi yn ennill Tlws Celf Dylunio a Thechnoleg yn Eisteddfod yr Urdd, Bro Maelor. Llanbed – Côr yr Urdd yn cyflwyno rhodd i Twynog Davies am ei waith fel arweinydd y Côr am 15 mlynedd Llanwnnen – Allen Watts, Pantyrnwenon wedi rhedeg Marathon Llundain, a chodi arian i gronfa 'Plant mewn angen'.

1997 Llanbed – Y Bnr. John Phillips, Castellana, yn Gyfarwyddwr newydd Undeb Cymru a'r Byd. Cwmsychbant – Sion, Sirian a Sulwyn Cathal yn ennill cwpanau yn Rali'r Ffermwyr Ifainc. Aelodau'r Urdd Llanbed, Coedmor, Y Dderi, Cwrtnewydd a Llanybydder yn mwynhau yn Jambori yr Urdd yng Nghaerdydd i ddathlu 75 mlynedd y mudiad.

1998 Llanbed – Mrs Phyllis Smith yn derbyn y BEM am ei gwaith i'r Llen Brydeinig am dros 60 mlynedd. Cymanfa Bedyddwyr Caerfyrddin a Cheredigion yn Llanbed o dan Lywyddiaeth Mrs Nesta Harries. Copïau llun 'Soar y Mynydd' o waith Ogwyn Davies, a gomisiynwyd gan Rhiannon

Lewis, i'w gwerthu i godi arian i Eisteddfod yr Urdd '99. Cwmann – Lyndon Gregson ar fin dechrau ei brentisiaeth gyda Chlwb Pel-droed Abertawe. Cwmsychbant – Eleri Jones, Blaenhirbant uchaf – Brenhines Rali'r Ffermwyr Ifainc ym Mhontsian.

1999 Eisteddfod yr Urdd – Lluniau ac adroddiadau ar lwyddiant ysgubol yr Eisteddfod. Odwyn Davies, Olmarch, yn ennill Tlws John a Ceridwen Hughes. Gorsgoch – Apêl y Gors yn codi arian i uned ddyddiol Chemotherapi Ysbyty Glangwili. Cyflwyno rhoddion i - Johnny Williams, Bayliau am ei wasanaeth i'r Ysgol Gyfun fel Llywodraethwr am 30 o flynyddoedd, - ac i John Jones, Swyddog Gorsaf y Frigâd Dân am ei wasanaeth gwerthfawr yntau am 40 o flynyddoedd.

Dyddiadur



GORFFENNAF

- Noson Gymdeithasol yn y Talbot, Tregaron. Tynnir y raffl fawr. Dechrau am 7:30. Elw i Ward Meurig, Ysbyty Bronglais.
- Diwrnod Hwyl Ysgol Llanwenog am 3 o'r gloch yn cynnwys Twrnament Pêl-droed, BBQ, Ras Hwyl a Stondinau amrywiol.
- Barbeciw a Disgo Clwb Rygbi Llanbed, elw tuag at y Sioe Amaethyddol a'r Pwll Nofio.
- Cyngerdd yng Nghapel Maesffynnon, Llangybi gan Barti'r Shanis am 7:30y.h. Elw tuag at y Capel.
- Cyfarfod Canmlwyddiant Ysgol Llanwnnen yn yr ysgol am 7 o'r gloch.
- Mabolgampau Cwrtnewydd.
- Barbeciw Ysgol Sul Noddfa yng Nghanolfan Gymuned Cwmann.
- Cneifio Llanbed ar fferm Capeli Cribyn.
- Cyfarfod Agored Dathlu Ysgol Llanwenog yn 140, am 7.30.

AWST

- Treialon Cŵn Defaid Llanbed a'r cylch ar gaeau Blaenwern, Heol Maestir.
- Sioe a Threialon Cŵn Defaid Cwmsychpant.
- Sioe Amaethyddol Llanbedr Pont Steffan.
- Sioe a Threialon Cŵn Defaid Gorsgoch a C.Ff.I. Llanwenog.
- 24 – 27 Penwythnos Eisteddfod Rhys Thomas James Pantyfedwen yn ysgol Gyfun Llanbed.
- 27 Sioe a Threialon Cŵn Defaid Llanllwni o dan nawdd C.Ff.I. Llanllwni ar gaeau Abercwm. Am fwy o wybodaeth cysylltwch a Meryl Davies ar 01559 384217.

MEDI

- Diwrnod 'Bant a'r Cart' i lansio Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd Ceredigion 2010.
- Noson Moes a Phryn yn neuadd Seion, Cwrtnewydd dan nawdd Urdd y Benywod, Capel-y-Bryn am 7:30y.h.
- Ffair Ram ar gae pentref Cwmann
- Cymanfa Dathlu 40 oed Eisteddfod Rhys Thomas James.
- Noson gyntaf tymor newydd Merched y Wawr Llanbed yn festri Siloh am 7.30.
- 14-16eg – Pen-wythnos o ddathlu Ysgol Llanwenog yn 140 oed.
- Cyngerdd Mawreddog mewn pabell yng nghanol Drefach [dathliadau Ysgol Llanwenog] gyda Gwenda a Gaynor Owen; Gillian Elisa; Ifan Lloyd; Ifan Griffiths; Deiniol Wyn; Gwawr ac Einir; Coda a John Evans yn arwain y noson.
- Cymanfa Ganu 100 oed yng Nghapel-y-Cwm, Cwmsychpant am 7:30y.h.
- Cyngerdd Mawreddog o dan nawdd Pwyllgor y Sioe Frenhinol, Apêl Ceredigion 2010 yn y Neuadd Fawr, Aberystwyth - artistiaid – Côr Godre'r Aran, Rhys Meirion a Leah Marian Jones.

HYDREF

- Noson Caws a Gwin yn Neuadd Sant Iago Cwmann – elw at Sefydliad Prydeinig y Galon.
- Sioe Ffasiwn Ysgol y Dderi - Siop *duet* yn Neuadd Coleg Llanbed.
- Cyngerdd gan Lleisiau'r Werin ac eraill yn Neuadd Seion, Cwrtnewydd am 7:30y.h. dan nawdd Pwyllgor Lles Llanwenog.
- Cyngerdd Côr Merched Corisma yng Nghapel Bethel Parcyrhos.

TACHWEDD

- 3 Eisteddfod C.Ff.I. Ceredigion.
- Cyngerdd gan Gôr Godre'r Aran yn Neuadd Bro Fana, Ffarmers am 7:30y.h.
- Gŵyl Gerdd Dant Ystrad Fflur ym Mhafiliwn Pontrhydfendigaid.

Llanfair

Dymuniadau Gorau

Hoffwn ddyddymuno yn dda i Alistair a Dawn Kenwright sydd newydd symud i fyw yn Llanbed ar ôl treulio dros ugain mlynedd yn byw yn y Pandy, Heol Llanfair. Pob hwyl iddynt yn eu cartref newydd. Yr un amser hoffwn groesawu yn ei lle David a Katy James sydd wedi symud i'r ardal o Lundain. Mae David yn dal i yrru tacsï yn y ddinas fawr bob hyn a hyn. Gobeithiwn y byddant yn hapus yn ein plith.

Barbeciwr Ffotograffiaeth

Cawsom noson arbennig ar nos Sadwrn, Mehefin 9fed pan gynhaliwyd barbeciwr blynyddol y grŵp ar dir Jean y Siop ar lan yr Afon Teifi. Roedd y tywydd yn braf a daeth grŵp niferus ynghyd i fwynhau y bwyd, diod a'r cymdeithasu. Yn ystod y noson cawsom arddangosfa o luniau a dynnwyd ym mis Mai pan aeth yr aelodau i Aberaeron i weld yr haul yn machlud. Diolch i Jean ac Al am drefnu'r noson ac i bawb a daeth â 'pwdin' i fynd gyda'r byrgers. Noson hwylus dros ben.

Pen-blwydd

Llongyfarchiadau cynnes iawn i Mr Frederick Rubidgi (Dick), tad Sally, Tanyresgair, sydd newydd gyrraedd ei naw deg oed.

Gweithio ar y Neuadd

Diolch i bawb a ddaeth i weithio ar y neuadd yn cynnwys peintio ac yn y blaen.

Helpa Drysor

Ar nos Sadwrn, Mehefin 2ail fe gynhaliwyd helpa trysor wedi ei threfnu gan Martin ac Eleri Quan, enillwyr yn 2006. Aeth y cliws â'r ceir o gwmpas yr ardal yn cynnwys Llanfair, Llanddewi, Stags Head a Llwynygroes cyn pennu yng Nghlwb Golff Cilgwyn lle gawsom swper. Enillwyr eleni oedd Lyn ac Alex, Awelon a nhw felly fydd yn trefnu y noson yn 2008. Roedd pawb wedi mwynhau yn fawr iawn.

Taith Sefydliad y Merched

Ar ddydd Sul, Mehefin 24ain aeth nifer o aelodau a ffrindiau y sefydliad i Gastell Powis ger y Trallwng, ac o bob son cawsom amser braf. Cyn mynd mewn i'r castell treuliodwyd amser yn Charlies yn edrych o gwmpas. Roedd y castell yn rhyfeddol ac roedd pawb wedi mwynhau yn fawr iawn. Ar y ffordd adref arhoswyd yn y Miners Arms ym Mhontrhydygroes i gael pryd o fwyd.

Croeso nôl

Croeso nôl i Ian, Teifi View, Heol Llanfair sydd newydd ddychwelyd o Korea ar ôl blwyddyn i ffwrdd yn dysgu plant i siarad Saesneg. Mae'n

gobeithio teithio eto cyn bo hir ond y tro nesaf i Vietnam.

Ffarmers

Rhwydwaith Cymunedol

Cynhaliwyd cyfarfod gan Rwydwaith Cymunedol y Tywi yn y Neuadd ar Nos Fawrth, y 19eg o Fehefin dan gadeiryddiaeth y Cynghorydd lleol, Mr Eirwyn Williams, Cwmann. Daeth cynrychiolwyr o nifer o fudiadau gwirfoddol yn ardal Dinefwr i'r cyfarfod, a chafwyd cyflwyniadau gan gynrychiolwyr Mudiad y Ffermwyr Ieuainc, Menter Bro Dinefwr, Heddlu Dyfed Powys, trafodaeth ar Wefannau Cymunedol ac ati. Ar yr un noson, 'roedd swyddogion o'r Biwro Cymunedol yn bresennol i roi cymorth i grwpiau cymunedol sydd yn edrych am gyllid i ddatblygu prosiectau yn eu hardaloedd.

Pen-blwydd hapus

Dymunwn ben-blwydd hapus i Mrs Grace, Llwynhelyg a oedd yn dathlu ei phen blwydd yn ddeg a phedwar ugain mlwydd oed ddiwedd mis Mehefin.

Arddangosfa a Ffair Grefftai

Mae aelodau'r Clwb Crefftai, sydd wedi bod yn cwrdd yn y pentref ers rhyw flwyddyn bellach, yn trefnu arddangosfa o'u gwaith ynghyd â ffair grefftai yn Neuadd Bro Fana ar ddydd Sadwrn yr 28ain o Orffennaf. Os am ragor o wybodaeth, cysylltwch â Mrs Judy Jenkins, Llys Awel, Ffarmers.

Carnifal a Mabolgampau

Mae Pwyllgor Mabolgampau Bro Fana yn brysur yn paratoi ar gyfer y Carnifal a'r Mabolgampau blynyddol a gynhelir ar ddydd Sadwrn, yr 11eg o Awst ar Barc Bro Fana. Eleni, fe fydd cystadlaethau Merlodgampau (Gymkhana) yn dychwelyd i'r rhaglen ar ôl absenoldeb o ryw chwarter canrif. Ysgrifennydd y Pwyllgor yw Mrs Ethel Davies, Llys Helen, gyda Mrs Janice Sidebottom, Dolaugwynion yn trefnu'r merlodgampau.

Neuadd Bro Fana

Mae pwyllgor Neuadd Bro Fana yn brysur yn paratoi rhaglen o weithgareddau ar gyfer gaeaf 2007 / 2008. Byddwn yn croesawu Côr Godre'r Aran yn ôl i'r Neuadd ar Nos Sadwrn y 3ydd o Dachwedd, gyda Mr a Mrs Raymond Roberts, Gelli Aur, Parcyrrhos yn llywyddion y noson. Byddwn yn croesawu 'Lleisiau'r Werin' o dan arweinyddiaeth Mrs Elonwy Davies, Llanybydder i'r 'Cyngerdd a Noson o Garolau' a gynhelir ar y Nos Sul cyn y Nadolig, sef y 23ain o Ragfyr. Mae'r noson yma yn gyfle i'r eglwys a chapel i'r ardal ymuno i gynnal gwasanaeth o fawl,

a dathlu genedigaeth yr Iesu. Bydd Cerddorfa Siambr Llambled yn perfformio yn y Neuadd ar brynhawn dydd Sul, y 27ain o Ionawr 2008. Cafwyd cyngerdd arbennig yn eu cwmni ar ddechrau 2007, ac edrychwn ymlaen i'w croesawi eto. Mae trefniadau ar gyfer nifer o ddigwyddiadau arall hefyd i'w cwblhau, ac fe'u cyhoeddir yn ystod y misoedd nesaf. Gellir hefyd weld manylion ar y wefan gymunedol www.ffmpegers.org

Cyrrddau Diolchgarwch

Bydd Eglwys y Methodistiaid, Saron, Cwm Twrch yn cynnal Cwrdd Diolchgarwch ar Nos Iau, y 13eg o Fedi gyda'r Parchedig Eileen Davies, Llanllwni yn gwasanaethu. Bydd yr Oedfa Ddiolchgarwch ym Methel, Cwm Pedol ar Nos Fercher y 26ain o Fedi gyda'r Parchedig Cynwil Williams, Caerdydd yn gwasanaethu.

Cwmsychpant

Cydymdeimlo

Cydymdeimlir yn ddwys iawn ag Elenid, Eifion, Hedydd a Catrin Jones, Talar Wen ar golli mam, mam yng nghyfraith a mam-gu annwyl iawn sef Mrs Devina Jones, Llwynypur, Horeb yn dilyn salwch byr. Derbyniwch ein cydymdeimlad dwysaf.

Swydd Newydd

Ymhyfrydwn fod Mrs Nanna Ryder, Tyngrug-ganol wedi bod yn llwyddiannus yn sicrhau swydd athrawes yn Ysgol Gynradd Beulah, ger Castell Newydd Emlyn. Pob lwc Nanna ac mae'n siwr bydd y plantos yn hoff iawn o'i Miss newydd.

Gwellhad Buan

Gobeithio fod braich Elin Davies, Tyngrug-Isaf yn well erbyn hyn gan iddi fod mewn platar yn ddiweddar.

Capel y Cwm

Cymerwyd rhan i gyhoeddi emyn ar ran y capel yng Nghymanfa Ganu'r Undodiaid yn Llambled ar ddiwedd y mis gan Sioned Hatcher. Diolch iddi am ei wneud gyda graen.

Silian

CFfl Bro'r Dderi

Ar ddiwedd mis Mai, aeth aelodau'r clwb i gystadlu yn Rali flynyddol y Mudiad ar fferm Gafryw ym Mydroilyn. Roedd pob aelod o'r clwb wedi cael cyfle i gystadlu a phawb ar eu gorau ar y diwrnod. Yn y gystadleuaeth Goginio, daeth Elin Gwyther ac Elliw Mair yn ail agos iawn. Gwisgodd Lowri Pugh-Davies a Carwyn Jones un o'm harweinyddion, sef Siân Rees fel 'dart' yn y gystadleuaeth 'Gwisgo Arweinydd y Clwb fel Offeryn a

ddefnyddir mewn Chwaraeon'. Daeth Gemma Thomas a Hedydd Davies yn drydydd yn y gystadleuaeth 'Generation Game'. Er na chafodd gweddill yr aelodau wobwr ar y diwrnod, cafwyd llawer o sbort yn paratoi ac yn cystadlu ar y diwrnod. Roedd hi'n bleser i weld Hedydd Davies ar lwyfan y Rali fel 'Aelod Iau'r Flwyddyn' ac un o arweinyddion y clwb, Gwen Davies fel Darpar-Lywydd y Sir.



Mis digon tawel yw'r mis yma wedi bod i redwyr Sarn Helen.

Bu'r clwb yn cystadlu mewn Ras Gyfenwid Castellu Cymru. Dyma'r tro cyntaf i'r clwb gystadlu yn y gystadleuaeth hon. Dechreuodd y ras ar fore Sadwrn crasboeth allan o ddrysau Castell Caernarfon lle'r oedd ein rhedwr cyntaf yn barod i ddechrau'r daith ar y cymal cyntaf. Roedd yna ddeg cymal ar y diwrnod cyntaf, bu yna gystadlu brwd rhwng pumdeg naw o dimoedd. Gorffennodd y diwrnod cyntaf yn y Drenewydd lle'r oedd pawb yn barod am noson o gwsg.

Bore trannoeth roedd y rhedwyr cyntaf ar y llinell ddechrau am saith o'r gloch yn barod i gychwyn. Eto, diwrnod poeth iawn a hyn yn gwneud y daith i lawr i Gastell Caerdydd yn un galed iawn. Cafwyd diwrnod da unwaith eto a phawb yn rhoi o'u gorau. Cyrhaeddwyd Castell Caerdydd tua amser te. Bu'n benwythnos cyffrous llawn cyffro a roedd yr ugain rhedwr o'r clwb a'u cefnogwyr wedi mwynhau mas draw. Gorffennodd Sarn Helen yn dri deg chweched tîm, roedd hyn yn ganlyniad da iawn i'r clwb i feddwl fod yno clybiau mawr iawn o Loegr, de Cymru ac un tîm o Sbaen. Arbennig, gobeithio gawn gyfle i gymryd rhan eto y flwyddyn nesaf.

Bu rhai aelodau yn cystadlu mewn ras 11 milltir yn Nant yr Arian sef ras Pencampwriaeth Rhedeg Treial Prydain Fawr yn ddiweddar. Cafodd Dawn Kenwright dipyn o lwyddiant yno wrth iddi gipio'r fedal aur Brydeinig a hefyd y fedal aur Gymreig i fenywod dros 50 oed. Fe gwblhaodd Dawn y cwrs mewn 1 awr 37 munud. Daeth llwyddiant hefyd i Caroline John wrth iddi hithau gasglu'r fedal arian Brydeinig a'r fedal aur Gymreig yn y categori i fenywod dros 40 oed. Fe groesodd Caroline y llinell mewn 1 awr 39 munud.

Cafodd Mark Dunscombe ras dda iawn yno hefyd i orffen mewn amser arbennig o 1 awr 28 munud. Gorffennodd Gareth Jones mewn 1 awr 48 munud.

Nid yw'r golygydd o reidrydd yn cytuno â'r farn a adlewyrchir yn mhob un o erthyglau CLONC.

Cwmann

Côr Meibion Cwmann â'r Cylch

Ar nos Wener Mehefin 22 cynhaliwyd y cinio blynyddol yn y Coleg yn Llambled. Llwyddwyd y noson gan yr is-gadeirydd Cyril Davies, ac ar ôl croesawu bawb, awd ati i wleda.

Yna cafwyd gair gan lywydd y côr- Alun Williams, Crown Stores, a soniodd am y mwynhad a gafodd yng nghwmni'r côr i'r Albert Hall yn Llundain 'nôl ym mis Mawrth. Yn dilyn cafwyd anerchiad cadeirydd y côr – Arthur Roderick. Diolchodd ef i'r swyddogion am eu gwaith dros y flwyddyn gan ddiseddu trwy gyflwyno anrhegion bychain i arweinyddes y côr – Elonwy Davies, â'r gyfeilyddes Elonwy Pugh. Yna cafwyd eitemau amrywiol gan nifer o'r aelodau a'r noson yn dod i ben gyda'r côr yn canu yr 'Amen.'

Mae'r côr yn awr yn edrych ymlaen at ganu ymysg nifer o gorau yng Nghanolfan y Mileniwm yng Nghaerdydd ddechrau Gorffennaf.



Lyndon mab Bryn a Helena Gregson, Werna, a Maxine merch Arwyn a Sarah Morris, Oakdean ar ddiwrnod eu priodas yng Nghapel Brondeifi.



Iona Davies, Murmur Teifi, Cae Ram yn derbyn tystysgrif yn ddiweddar yng Ngwesty Llwyn Iorwg, Caerfyrddin am roi 50 peint o waed.

Pen blwydd Arbennig

Llongyfarchiadau i Mr Jack Davies, 19 Heol Hathren ar ddathlu ei ben blwydd yn 90 yn ystod y mis.

Diolch

Dymuna Kevin a Beryl Doyle, Caradog Vue ddiolch i bawb am bob arwydd o gydymdeimlad a dderbyniwyd ganddynt yn eu colled pan fu farw brawd Kevin, sef Jim Doyle (mab hynaf y diweddar Tom a Nance Doyle, Belle Vue, Llanllwni.)

Diolch

Dymuna Huw a Rose Jones, Pantycelyn, Cwmann ddiolch yn fawr i bawb am y llu cardiau, anrhegion a blodau a dderbyniwyd ar enedigaeth eu mab Steffan Rhun.

Diolch

Dymuna Jenkin Mason estyn ei diolch i berthnasau, cymdogion a ffrindiau am bob cymorth a gofal a gafodd ar adeg ei ymweliad ag ysbyty Bronglais ac ysbyty Treforys. Diolch am y galwadau ffôn a llu o gardiau. Diolch yn fawr iawn am eich holl ddymuniaidau da.

Priodas Dda

Dymuniadau gorau i Dafydd a Kay Melin Teifi ar eu priodas yn ddiweddar. Byddant yn y dyfodol agos yn symud i'w cartref newydd yn Pantmeinog.

Hefyd priododd Lyndon a Maxine, 2 Treherbert yng nghapel Brondeifi. Llongyfarchiadau a phob lwc i'r ddau bâr.

Cydymdeimlo

Estynnwn ein cydymdeimlad a Ceinwen a Graham Evans, Fferm Felinfach ar farwolaeth mam Ceinwen yn dra disymwth. Hefyd â Kevin Doyle a'r teulu Caradog View yn eu profedigaeth o golli ei frawd a Mrs Betty Lawrance, Crud yr Awel wedi colli cyfnither a ffrind gorau yn ystod y dyddiau diwethaf.

Gwellhad Buan

Rydym yn dymuno gwellhad buan i Tina Hope, Postgwyn a Rosa Lloyd, 7 Heol Hathren - y ddwy wedi cael llawdriniaeth. Da deall eu bod wedi dod adref.

Clwb 170 Sant Iago

Mehefin 2007, 1. Canon Wynzie Richards, Maestefi, 2. Hybarch Andy John, Vicarage, 3. Mr Eifion Williams, Brynywawr, 4. Mr D. Lloyd Jones, Cedars, Ffordd y Gogledd, 5. Miss Rhian Jones, Hafod Cottage, 6. Mrs Lena Williams, 39 Heol Hathren, 7. Mr Wayne Evans, Annwylfan, Llanllwni, 8. Mrs Karen Jones, Preswylfa, 9. Mrs Carol Doughty, Caris, 10. Mrs Amanda Evans, Annwylfan, Llanllwni.

Llanybydder

Diolch

Hoffai Toni a Eilian o Ben-llŷn ddiolch o galon am yr anrhegion a'r cardiau a dderbyniwyd ar achlysur genedigaeth eu gefeilliaid Gwion a Morus. Diolch yn fawr i chi gyd ac

i Arwyn a Carol, Awel-y-Grug am ddod yn Tad-cu a Mam-gu am y tro cyntaf.

Cydymdeimlo

Gyda siom a thristwch y clywyd am farwolaeth Noel Griffiths, Gorseinon ond gynt o Tower Cottage, Llanybydder ac yntau ond yn 64 oed. Cydymdeimlir yn ddwys iawn a'i briod Margaret a'r bechgyn Nigel a Mark a'u teuluoedd yn eu galar o golli person annwyl iawn i bawb. Bu'r angladd yng Nghapel Aberduar ac yno hefyd y rhoddwyd ei weddillion i orffwys.

Diolch

Dymuna Elonwy ddiolch o waelod calon am y galwadau ffôn, anrhegion, a chardiau niferus dderbyniodd yn dilyn yr achlysur o dderbyn medal John a Cheridwen Hughes, yn eisteddfod yr Urdd yng Nghaerfyrddin eleni.

Derbyniwyd y cyfan oll yn ddiolchgar.

Ysgol Llanybydder

Llongyfarchiadau mawr i Sian Elin a Sioned Fflur a fu'n cymeryd rhan yn y sioe "O Bren Braf" yn Eisteddfod yr Urdd yng Nghaerfyrddin. Gwnaethoch eich gwaith yn arbennig o dda – a roedd y sioe'n werth ei gweld. Da iawn ferched.

Buom yn ffodus iawn i gynnal ein mabolgampau bore dydd Mawrth,

18fed o Fehefin cyn i'r glaw ddod. Fel arfer, roedd yna dri thîm, sef coch, melyn a glas. Eleni y tîm melyn oedd yn fuddugol gyda choch yn ail a glas yn drydydd.

Cyflwynwyd tarianau i'r unigolyn gyda'r mwyafrif o farciau ym mhob oedran: Merched Derbyn a Meithrin – Sophie Hughes, Bechgyn Derbyn a Meithrin – Owen Davies, Merched Bl. 1 a 2 – Manon Williams a Michaela Lovell, Bechgyn Bl. 1 a 2 – Daniel Lewis, Merched Bl. 3 a 4 – Elin Hughes, Bechgyn Bl. 3 a 4 – Joshua Jones, Merched Bl. 5 a 6 – Lauren James, Bechgyn Bl. 5 a 6 – Arwel Thomas.

Yn ogystal cyflwynwyd tarianau i enillwyr yr 800 medr: Bl. 3 a 4 – Joshua Jones a Courtney Cole, Bl. 5 a 6 – Arwel Thomas a Lauren James.

Bydd rhai o'r enillwyr yn mynd ymlaen i gystadlu ym mabolgampau'r cylch. Pob lwc i chi gyd.

Aeth Mrs Davies a Delyth â chriw o aelodau'r Urdd Bl. 5 a 6 i Ganolfan yr Urdd yng Nghaerdydd am dri diwrnod ddiwedd y mis. Roedd yna ddigon i wneud a gweld a chafwyd hwyl dros ben.

Yn anffodus fel arfer byddwn yn gorfod ffarwelio â disgyblion blwyddyn 6 ar ddiwedd y tymor. Pob lwc i chi gyd yn yr ysgol Gyfun a chofiwch ddod yn ôl i'n gweld ni – bydd yna groeso i chi bob amser.

Cellan

Noson lwyddiannus

Cynhaliwyd noson lwyddiannus iawn ar nos Wener yr 22ain o Fehefin yn Neuadd y Mileniwm Cellan a drefnwyd ar y cyd gan Sefydliad y Merched Cellan a Phwyllgor Gwelliant Pentref Cellan. Codwyd dros dwy fil o bunnoedd i'w rannu rhwng gronfa'r Galon a Neuadd y Mileniwm. Cafwyd hwyl wrth flasau caws Cymreig, gwin a mefus yng nghyd ag ocsiwn gan Andrew Morgan a disgo Harold i orffen y noson. Roedd hi'n braf gweld cymaint o dyrfa a gorfod chwilio am ragor o gadeiriau wrth i'r dyrfa gynhyddu!!! Diolch i Lywydd y noson Mrs Mary Evans, Borthyn a'i merch a'i mab yng nghyfraith Mr a Mrs Richard Jones.

Diolch i ieuectid y pentref am eu cymorth wrth weini a golchi'r llestri!!! Diolch am gefnogaeth pawb.



Cyflwynwyd siec am £1,500 i Feithrinfa'r Dyfodol gan deulu'r Gossip - James, Norma, Jo a John – er cof am ferch a chwaer Tracey, a fynychodd yr ysgol yn y 70au. Derbyniwyd y siec gan aelodau Clwb wedi ysgol a Chynllun Chwarae'r Gwyliau, gyda Sabrina Jones a Dwynwen Davies, y cyd berchnogion diolchgar.

Ffair Ram

Ar Gae Pentref Cwmann
8fed Medi 2006

Llywydd: Mrs Pat Lloyd Jones,
Cedars, Llambled.

Sioe, Cystadlaethau CFFI,
Arddangosfa Adar Ysglyfaethus ac
Adar Caj, Saethyddiaeth, Gwartheg
Ucheldir a Defaid Prin
ac atyniadau eraill.

Beirniadu yn dechrau am 12 o'r
gloch
Dewch i gefnogi

Cynhelir

BARBECIWI A DISGO

(gan Rob Rattray,
Cigydd, Aberystwyth)
yn y Clwb Rygbi

Llanbedr Pont Steffan

ar

Nos Sadwrn

7fed Gorffennaf 2007

Elw tuag at
sioe amaethyddol Llambled
a phwll nofio Llambled

Mwnci ffwnci



Brodweithio
a Phrintio Dillad.
Darparu
Dillad Gwaith
a Hamdden.

Sioned Green
a Mared Jones
Nantgwyn,
Heol Llanfair
Llambled

01570 423135

07811917799 /

07968821035

mwnciffwnci@hotmail.com

KING'S HEAD




Stryd y Bont, Llambled

01570 422598

o dan reolaeth newydd
Emyr ac Ann Marie.

Bwyd Ffres a Chwrw Da.
Croeso cynnes i bawb.

Cydnabyddir cefnogaeth



i'r cyhoeddiad hwn

Llinell Gyswilt:

0845 6076070

www.bwrdd-yr-iaith.org.uk

www.mentrau-iaith.com

Noddir gan
Lywodraeth
Cynulliad Cymru



Llanllwni

Diwrnod Hwyl

Cafwyd ddiwrnod o hwyl a sbri
ar y 9ed o Fehefin 2007 yng Nghae
Glanafon drwy garedigrwydd
Dewi a Betsy. Daeth tyrfa o bobl i
fwynhau'r tywydd braf a'r amryw
o weithgareddau gan gynnwys,
Castell Bownsio, Stondin Cacennau
a Mabolgampau. Gwnaeth ceffyl
a chart Gary ac Irene, Rhos Uchaf
ymweliad urddasol.

Bu yna lawer o ddiddordeb yn yr
arddangosfa Ceir Rali GB. Bu rhai
yn ffodus i ennill trip efo Dorian
Rees mewn car 'Subaru Impreza' ar
y Sadwrn canlynol yng Nghanolbarth
Cymru. 'Rydym yn ddiolchgar dros
ben i Kevin Evans a Dorian Rees am
ymddangos eu ceir.

Cafwyd llawer o sbri efo'r
gystadleuaeth 'Ready Steady Cook'
trwy arweiniad Anthony Evans o'r
rhaglen 'Stwffio' a bu rhai dewr yn
blasu'r danteithion o forgrug!!

Gwnaeth rhai o'r plant oedd â
thipyn bach o egni a'r ôl yr holl
weithgareddau ymuno efo 'J's
workout'.

Uchafbwynt y dydd oedd pan
wnaeth ddwy lodes bwysig dros
ben ymuno â ni, sef y cymeriad
'Sali Mali' a'r newyddiadures Sara
Edwards, Llywydd y diwrnod.

Fe barhawyd gyda'r hwyl efo'r
band lleol a phoblogaidd 'Coda' yn
ein diddanu ar y noson.

Trefnwyd y diwrnod ar y cyd
rhwng 'Pwyllgor Cylch Meithrin a Ti
a Fi Llanllwni' a 'Phwyllgor Rhieni
ac Athrawon Ysgol Llanllwni' efo'r
bwriad i gynnig diwrnod o Hwyl a
Sbri i'r teulu ynghyd â chodi arian
ar gyfer y canlynol: Ysgol Feithrin
Llanllwni; Ysgol Gynradd Llanllwni
a Ward y Plant Ysbyty Heath
Caerdydd.

Yr ydym yn ddiolchgar dros
ben i'r holl bobl a gyfrannodd at
lwyddiant y diwrnod. Gwnaethom
elw sylweddol o £4,186. Felly
mae'n diolch yn mynd at holl
noddwyr ein raffl a'r ocsiwn. Diolch
i bawb a gyfrannodd tuag at y
stondinau, stiwardio yn ystod y dydd
a'r nos a'r holl bobl a gefnogodd y
diwrnod trwy eu presenoldeb.

Cydymdeimlad

Estynnir cydymdeimlad a Lewis
Griffiths a'r teulu, Llwynrhosyn ar
farwolaeth ei wraig Sally yn ystod y
pythefnos diwethaf.

Cofio

Hoffem yn fawr gydnabod un o
gymeriadau y fro sef Eleanor Davies,
[Nell] a fu farw yn ddiweddar yn
yr Annedd, Llanybydder. Bu yn
byw am flynyddoedd yn Llanllwni
– yn Bryndulais a chyn hynny yn
Teras Greenfield. Yr oedd yn 94
oed. Atgofion amdani yn mynd
ar ei beic i siopa i Llanybydder
a'r corgi bach yn dilyn. Yr oedd
bron gymaint o fagiau yn mynd

fyfyr ar y beic ac yr oedd yn dod
nôl. Ganwyd hi yn Blaenrhydgoch
ac fe symudodd y teulu i fyw i
Ffynonlas [Blue Well] ac felly bu
yn mynychu ysgol Gwernogle. Bu
farw ei rhieni a hithau ond yn 13oed
a bu raid iddi gynorthwyo i fagu
plant ieuengach. Bu yn forwyn yn
Penygareg, Llwynwalter, Crugywhil
na Llygadyrych cyn symud i
Ffosybrog sef bwthyn bach ar
ffordd Bronwydd, cyn dod yn ôl i
Llanllwni ac yna i'r Annedd. Colli
un o gymeriadau cefn gwlad – cofion
melys amdani.

Noson Goffi

Cynhelir Noson Goffi yng Ngerddi
Norwood, Llanllwni am 7:30 o'r
gloch ar Nos Wener, Awst 3ydd – yr
elw tuag at Eglwys Llanllwni.

Ysgol Llanllwni

Hoffwn ddiolch i Gary ac Irene
Coxhead, Rhos Uchaf am eu
rhodd o £50, elw cwis a drefnwyd
ganddynt yn nhafarn y Belle Vue yn
ddiweddar.

Braf oedd gweld cymaint o blant,
rhieni a ffrindiau yn mwynhau'r
Diwrnod Hwyl a drefnwyd gan
yr Ysgol Feithrin a Cylch Ti a Fi,
dydd Sadwrn, Mehefin 9fed. Bu'n
ddiwrnod llwyddiannus iawn
gyda digon o stondinau amrywiol
i ddiddori pawb. Mwynhaodd
pawb glywed y grŵp lleol Coda yn
perfformio gyda'r hwyr.

Athletau sydd gennym yn sesiynau
Campau'r Ddraig y tymor yma.
Mae'n gyfle i blant yr Adran Iau
ddysgu ac ymarfer sgiliau newydd.
Ymunodd Mrs Emma Jones o
'Campau'r Ddraig' â ni am un
sesiwn.

Bu Geraint Thomas, Blaencwmdu,
cyn-ddisgybl yr ysgol yn arsylwi
yn yr Adran Iau am wythnos. Mae
Geraint am ddilyn cwrs i fod yn
athro yng ngholeg Aberystwyth.
Pob lwc i ti.

Daeth Miss Mattie Evans i'r ysgol
brynhawn Llun, Mehefin 18fed i roi
gwers wyddonol ar y testun Peillio
i blant blwyddyn 5 a 6. Roedd yn
wers diddorol iawn.

Bu Blwyddyn 6 yn Ysgol Llanbed
am brynhawn yn creu teclyn dal
pensilion gyda Mr Allan Jones,
Technoleg.

Aeth tîm o'r ysgol i chwarae
pêl-droed yn Llanfihangel ar
Arth nos Fercher, Mehefin 20fed.
Llongyfarchiadau i chi am ennill
y gystadleuaeth allan o chwech o
dimoedd o ysgolion lleol. Aelodau'r
tîm oedd Delor, Beth, Betsan, Aled,
Steffan, Ifor a Dafydd. Yn ogystal
cafodd Betsan fedal am fod yn
chwareuwraig orau y noson. Da
iawn ti Betsan.

Aeth yr Adran Iau i chwarae rygbi
tag yn ysgol Llanbed, brynhawn Iau,
Mehefin 21ain. Cawsant hwyl er
gwaethaf y glaw.

Edrychwn ymlaen at nifer o
chwaraeon sydd gennym cyn diwedd
y tymor. Bydd mabolgampau yr
ysgol, mabolgampau ysgolion

cylch Llambled i'r Adran Iau,
mabolgampau ysgolion cylch
Pencader i bawb, pêl-droed a
rownderi ysgolion cylch Llambled
i'r Adran Iau a Phêl-droed yn ysgol
Llanybydder.

Bydd ein trip ysgol yn
mynd i Ganolfan Hywel Dda yn
Hendygywyn-ar-daf ac yna ymlaen i
Ynys Bŷr ger Dinbych y Pysgod.

Bwriadwn fynd o amgylch
y pentref i gasglu sbwriel fel rhan
o ymgyrch Glanhau Sir Gâr ar fore
Mawrth, Gorffennaf 17eg. Mae
croeso i bawb ymuno â ni.

Pob lwc i blant blwyddyn
6 a fydd yn symud ymlaen i'r ysgol
uwchradd ym mis Medi. Pob lwc
hefyd i blant blwyddyn 2 a fydd yn
gadael y caban ac yn dechrau yn yr
Adran Iau.

Diwrnod Hwyl Ysgol New Inn

Ar ddydd Sadwrn, Gorffennaf
14eg mae diwrnod hwyl wedi ei
drefnu yng nghae Glasfryn ar sgwâr
y pentref. Mi fydd yn dechrau am
2:00 o'r gloch gyda ymweliad gan
ddwy sy'n adnabyddus iawn i lawer
o blant Cymru, sef Anwen Francis
a Siani'r Shetlan. Dewch draw yn
gynnar os ydych am weld y ferlen
fach ddireidus ei hyn! Hefyd yn
ymuno â ni yn ystod y prynhawn
fydd Gari Gofal a'r criw, felly dewch
draw i ganu efo nhw. Mi fydd yna
fabolgampau hefyd yng ngofal
Adrian Gregory, ynghyd â chastell
bownsio, peintio wyneb, plethu
gwalltiau a llu o ddigwyddiadau
eraill i'ch cadw'n brysur trwy'r
prynhawn. Mi fydd y diwrnod i
gyd am ddim i bawb gan gynnwys
lluniaeth. Yn dechrau tua 6:30 y.h.
fydd yna gystadleuaeth Tynnu'r
Gelyn a chystadleuaeth 'Sumo
Wrestling' i blant ac oedolion,
ynghyd â rhostio mochyn, eto am
ddim i bawb. Cofiwch ymuno â ni
am brynhawn o hwyl i'r teulu cyfan.

Pen-blwydd

Pen-blwydd hapus iawn i Daphne
Davies, Dolifor, Llanllwni sydd
yn 70 oed ar ddydd Mawrth y 10 o
Orffennaf. Cariad mawr oddi wrth
y teulu cyfan ond yn arbennig oddi
wrth Wil y gŵr, Angharad y ferch,
Aled y mab yng nghyfraith, Bethan
yr wyres, William yr ŵyr, Gwyneth
a Dick Pontiets.

Altyblaca

Diolch

Dymuna Anthony a Samantha
Harries ddiolch i bawb am y cardiau,
anrhegion ac arian a ddanfonwyd
iddynt ar achlysur eu priodas ym mis
Mai yn Ulverston, Cumbria. Diolch
yn fawr iawn.

Os ydych yn ymateb i hysbyseb gan
gwmni yn CLONC,
dywedwch wrthynt ymhle y
gwelsoch yr hysbyseb.

Llanbedr Pon Steffan

Llongyfarchiadau

Llongyfarchiadau i Joy Lake, The Haven, Maesllan ar ennill Gradd B.A. gydag anrhydedd 2:1 mewn Llenyddiaeth gyfoes Saesneg o Goleg Prifysgol Llambled. Pob lwc i'r dyfodol.

Cymorth Cristnogol

Cafwyd ymateb ardderchog i gasgliad wythnos Cymorth Cristnogol mis Mai eleni. Bu'r cyfanswm o bron £3600.00 yn goron i ymdrech gwirfoddolwyr o Gapeli ac Eglwysi'r fro a fu allan yn casglu o ddrws i ddrws yn ystod yr wythnos.

Diolch i bentrefi Cwmann, Cellan, Llanddewibrefi, Silian a Pharcyrhos ac eraill am eu cyfraniadau gwerthfawr. Diolch hefyd i Eglwysi Cartheli, Ystrad a Chribyn a Chapel St Thomas am eu haelioni hwythau. Diolch i ysgolion Ffynnonbedr a Charreghirfaen a ysgol Gyfun Llambled am ein cynorthwyo yn enwedig yn ein gwasanaeth Nadolig bob blwyddyn.

Bydd yr arian yn cael ei anfon i Gymorth Cristnogol yn ystod yr wythnosau nesaf. Diolch yn fawr i bob un fu yn gysylltiedig â'r casgliad ac i bawb a gyfrannodd i'r elusen deilwng yma.

Noddfa

Cynhelir Barbeciwn yng Nghanolfan Gymuned Cwmann nos Sul Gorffennaf 15fed am 4.45 i gloi gweithgareddau'r ysgol Sul ac i ddiolch i'r plant a'r bobl ifanc am eu ffyddlondeb a'u hymroddiad yn ystod y flwyddyn. Estynnir croeso cynnes i aelodau Bethel Silian, Caersalem Parcyrrhos a Noddfa ynghyd â'u teuluoedd.

Mae'r gost yn £2.50 i oedolion a'r plant a'r bobl ifanc am ddim. Enwau i Janet neu Llinos erbyn Gorffennaf 10fed. Dewch ynghyd i fwynhau noson o wleda ac o gymdeithasu.

Te i'r Henoed

Bu chwiorydd eglwysi Bethel, Caersalem a Noddfa yn paratoi te i'r "Ifanc o Galon" yn Neuadd Fictoria ar Fehefin 20fed. Roedd pawb wedi mwynhau'r wleda yn

fawr iawn ac yn dilyn bu criw o aelodau hynaf Ysgol Sul Noddfa yn cyflwyno eitemau amrywiol safonol a Janet yn cyfeilio. Roedd yr Henoed wedi cael pleser mawr yn gwrando ar ddoniau'r bobl ifanc. Talodd Dorothy ddiolch haeddiannol i bawb am brynhawn pleserus dros ben.

Merched y Wawr

Cynhaliwyd cyfarfod olaf y tymor Nos Lun, 11eg o Fehefin gyda Avril Williams yn llywyddu. Cawsom wybodaeth bod ein cangen wedi derbyn canmoliaeth uchel am ei gwaith yn cynhyrchu "Llyfr Lloffion" i gystadleuaeth Cenedlaethol y Mudiad. Derbyniwyd llythyr o ddiolch oddi wrth elusen "Bobath" am rhodd o £400.

Ein gwr gwadd am y noson oedd Gareth Richards, Y Goedwig, a oedd yn ôl ei arfer yn arddangos coginio. Ei thema y noson yma oedd "Picnic y Pâr." Roedd yr aelodau i gyd yn llawn edmygedd wrth iddo baratoi Salad Ffrwythau, Myffins Mefus, Pice picnic Porc, Troellen Tylwyth Têg ac arddangosfa o flodau. Diolchwyd i Gareth am noson addysgiadol a hwylus gan Mair Lewis. Enillydd y raffl fisol oedd Gwen Jones. Gan ei bod yn ddiwedd tymor diolchodd i Llywydd i'r swyddogion am eu gwaith graenus a thrylwyr drwy'r flwyddyn a darllenwyd llythyr oddi wrth Eryl Jones, yr is-lywydd a oedd yn methu bod yn bresennol, yn diolch i'r Llywydd am ei gwaith da hithau yn ystod y tymor.

Ar ddydd Sadwrn, 14eg o Orffennaf cynhelir y daith gerdded sirol a disgwylir i'r aelodau sydd â diddordeb i gwrdd ar y Rookery am 1.00 o'r gloch.

Cydymdeimlad

Estynnir cydymdeimlad dwysaf a'r teuluoedd i gyd sydd wedi colli anwyliad yn ystod y mis.

Baban Newydd

Llongyfarchiadau calonnog i Rhian a Llyr ar enedigaeth ei bachgen bach Guto Emrys ŵyr i Eryl Jones, Gerlan. Dymuniadau gorau i'r teulu yng Nghaerdydd.



Gillian Davies, Llanelli yn trosglwyddo llywyddiaeth pwyllgor Cenhadol Chwiorydd Cymanfa Caerfyrddin a Cheredigion i Janet Evans.

Diolch

Mae Llyr a Rhian am ddiolch o galon am y galwadau ffon, cardiau ac anrhegion maent wedi derbyn ar enedigaeth eu mab bach, Guto Emrys. Mae Eryl ag Annie (Mam-gu a Hen Fam-gu) am ddiolch am y cyfarchion maent hwythau hefyd wedi eu derbyn ar enedigaeth eu hŵyr bach newydd. Gwerthfawrogi'r holl garedigrwydd yn fawr.

Bedyddwyr

Roedd yr oedfa a ddarlledwyd ar Radio Cymru ar Fehefin 10fed yng ngofal y Parchedig Jill Tomos ac aelodau eglwysi Bedyddwyr Gogledd Teifi sef Alwena, Derek, David, Janet, Llinos, Margaret, Myfanwy a Nesta. Cafwyd ymateb gwych i'r darllediad gyda'r Gweinidog a nifer o'r aelodau yn derbyn llythyron a galwadau ffôn o bob cwr o Gymru yn canmol a llongyfarch pawb yn gysylltiedig a'r gwasanaeth clodwiw.

Gan fod tre Llambled ar lan Teifi mae'r afon yn rhan o fywyd pawb sy'n byw yn ei chyffiniau. Felly yn ystod yr oedfa clywyd gan amryw o'r aelodau beth mae'r afon yn ei olygu iddynt a sut mae hyn yn eu harwain i feddwl am Dduw a'i ddarpariaeth.

Mae'r diolch pennaf am yr arlwy arbennig a glywyd ar Radio Cymru yn ddyledus i'n Gweinidog am ei chynllunio manwl a'i pharatoadau trylwyr.

Senana Adran Aberduar a Llambled

Cynhaliwyd cyfarfod o'r uchod yn Brynhafod Gorsgoch ar nos Wener Mehefin 16eg. Llywyddwyd yr oedfa gan ein parchus weinidog sef y Parch. Jill Tomos. Mrs Eiddwen Hatcher, Mrs Menna Jones a Miss Mair Jones gymerodd y rhannau arweiniol. Mrs Margaret Wilson oedd wrth yr organ.

Y wraig wadd oedd Mrs Gillian Davies o Lanelli. Gwraig weithgar o'r BMS yng Nghymru a thu hwnt i'w Gillian ac am y gwaith yma dewisodd siarad. Treuliodd Gillian gyfnod yn yr India yn gweithio gyda'r BMS a hyfryd oedd clywed am yr amser hyn.

Cafwyd seremoni fechan o arwyddo Beibl y Senana i Mrs Janet Evans, Noddfa. Mrs Gillian Davies oedd cyn lywydd Senana, Cymanfa Caerfyrddin a Cheredigion ac yr oedd yn trosglwyddo'r awenau i ddwylo medrus Janet.

Croesawyd pawb i'r festri ar ôl yr oedfa i wleda oedd wedi ei pharatoi gan wragedd Brynhafod.

Noson i'w chofio yn wir oedd argraff pawb oedd yn bresennol.

Sicrhewch eich newyddion yn y papur hwn. Peidiwch â disgwyl i rywun arall ei gynnwys ar eich rhan. Mae'n rhy hwyr i achwyn ar ôl i CLONC ymddangos.

Cludfwyd Indiaidd
NEHAR
newydd agor yn Llambled



Y bwyd wedi ei goginio'n fres bob dydd.

15% o ostyngiad
ar archebion dros £10.00.

Y cogydd â dros 20 mlynedd o brofiad o weithio mewn sefydliad indiaidd.

10 Stryd y Bont, Llambled
☎ 01570 422893 / 422175

T. Emyr Jones
Adeiladwr



Araul, Cwmann
☎ 01570 423921
☎ 07790429378

Tim Jones



Ffotograffydd
Llainwen, Rhodfa Glynhebog
Llanbedr Pont Steffan
☎ 01570 422644

Toriad Taclus

Mae Toriad Taclus
Wedi newid siop
Mae ar Heol Caerfyrddin
Ger y Sgwar Top

Ffoniwch Catrin ar 01570 481425

Llanbedr Pont Steffan

Treialon Cŵn Defaid

Cynhelir Treialon Cŵn Defaid Llambed a'r cylch ar ddydd Mercher Awst 1af ar gaeau Blaenwern, trwy garedigrwydd teulu Falcondale. Y llywydd yw Ieuan James Aelybryn a Gerald Lewis Gwynfe yn beirniadu. Estynnir croeso cynnes i bawb.



Cyflwynwyd dwy siec i Aneurin Heath Parafeddyg Ambiwylans Awyr Cymru yng Ngorsaf Ambiwylans Llambed. Emrys Davies o Glwb Hen Gerbydau Llambed a'r ardal yn cyflwyno dros £961.17 a godwyd wrth gael ei noddi am fynd â'i feic modur 1947 AJS 350cc i Lundain. £100 gan Bwyllgor Treialon Cŵn Defaid Llambed a gyflwynwyd gan John Green Cadeirydd ac Ian Evans Ysgrifennydd.

Cymdeithas Hanes Llambed

Daeth blwyddyn lwyddiannus iawn y Gymdeithas i ben drwy gynnal dwy daith; y naill yn lleol, a'r llall yn ymweliad â Sain Ffagan. Selwyn Walters, Cadeirydd y Gymdeithas oedd yn arwain y daith gyntaf, a honno o gwmpas 'Taith Treftadaeth Llambed'.

Daeth yr aelodau ynghyd ger Neuadd y Dref, ond yn anffodus, roedd 'Treftadaeth Llambed' wedi mynd rhwng y cŵn a'r brain wrth i griw ffilmio rheoli'r gweithgareddau o gwmpas y rhan honno o'r dref. Er mae yn Ystafell y Llŷs yr oedd y ffilmio yr adeg honno o'r dydd,- neu'r nos,- roedd yn rhaid cael tawelwch perffaith y tu allan hefyd !! Gan fod pedwar o adeiladau'r 'Daith' yn y cyffiniau, sef Neuadd y Dref, Y Llew Du, Capel y Tabernacl a Hen Dŷ'r Banc, doedd dim amdani ond bod yn amyneddgar!

Wedi cael hanes yr hen sefydliadau yma, symud ymlaen i fyny Stryd yr Eglwys i safle'r Hen Ysgol Ramadeg. Mae yna blaciau ar, neu gerllaw pob safle yn rhoi ychydig o'u hanes, ond siom oedd gweld fod y plac ger gatiâu'r Eglwys wedi ei thynnu gan rywun neu rhywrai. Paham na all trigolion Llambed fod yn falch o'r hyn sydd gennym i'w dangos i eraill? Ymlaen eto i'r Gof-golofn o waith Goscombe John, ond gan ei bod yn mynd braidd yn hwyr oherwydd yr oedi ar ddechrau'r noson, penderfynwyd gohirio gweddill y daith tan rywdro eto. Edrychwn ymlaen i ddysgu rhagor am y dre.

Trefnwyd yr ymweliad â Sain Ffagan gan Gaenor Parry, ac er nad oedd yn medru bod yno'i hunan, roedd wedi trefnu bod aelod o Staff yr Amgueddfa yn disgwyl amdanom. Wedi sgwrs fer yn yr ystafell ddarlithio, ac yna yn yr oriel newydd, tywyswyd ni i Gapel Penrhiw, lle cyfeiriwyd at nodweddion Capel bach yr Undodiaid o Drefach Felindre. Ymlaen wedyn i weld Eglwys Sant Teilo Talybont, sydd wedi ei hail godi o'i hen safle ger Pontarddulais. Er nad yw'r gwaith wedi ei gwblhau eto, mae'n hollol amlwg y bydd yn rhyfeddod i'r llygad pan ddel y gwaith i ben. Mae'r addurn yn berthnasol i'r adeilad a safai yn yr adeg cyn y diwygiad Protestanaidd,- hynny yw, Eglwys Gatholig byddai, ac mae lliw y paent, a'r gor-euro yn cyfleu hynny.

Wedi ysbaid am ginio, cyrraedd yn brydlon yn Ysgol Maestir, a safai ar un adeg nepell o dre Llambed, a llawer o'r aelodau yn cofio amdani yno. Dangoswyd lluniau dwy chwaer a fu'n dysgu yn yr ysgol, ac un arall o'r disgyblion tua 1895. Trueni na byddai enwau'r rhain ar gof a chadw! Cofiai nifer ddefnyddio slaten a phensil pan yn dechrau'r ysgol, er mae yn Ysgol Peterwell, a Ffynnonbedr yn hwyrach y byddai hynny. Ambell un yn cofio'r gansen hefyd!! Dim rhagor o glecs nawr! Caed ychydig o amser i edrych o gwmpas eto yn yr Amgueddfa cyn cychwyn am adre, a phawb wedi dysgu rhywbeth newydd am yr ardal hon.

Bydd y Tymor newydd yn dechrau ar y trydydd Nos Fawrth ym Mis Medi, ond ceir rhagor o fanylion erbyn 'Clonc' y mis hwnnw.

Ysgol Ffynnonbedr

Efallai mae'r peth sydd yn llifo i'r meddwl wrth ystyried y mis a aeth heibio yw'r dŵr. Galwyni ohono'n arllwys fel afon ar hyd y coridorau a gwasgaru i'r dosbarthiadau. Yn ffodus fodd bynnag ni chafodd neb niwed.

Cofiw'n hefyd i Sara Wyn a Gareth Jones fwynhau'r dŵr yn Aquathlon yr Urdd yn Aberystwyth a chriw Blwyddyn 6 fwynhau ar lannau'r môr ym Mhentywyn am wythnos yn ystod Mehefin.

Aeth Blynnyddoedd 1 a 6 ar achlysuron gwahanol ar ymweliadau â Llanerchaeron a chael gwersi hanesyddol diddorol a chanmoliaeth am eu hymddygiad. Aeth Blynnyddoedd 2 a 3 yn y ffrwd ail-iaith i Bentrebach fel rhan o waith ail-iaith Cymraeg a chael budd a mwynhad o'u hymweliad. I'r Ganolfan Iaith yr aeth Blwyddyn 5 Cymraeg ar eu hymweliad hwy fel rhan o gwrs gloywi iaith gydag Anwen Jones.

Clodforwn Ceri Cranfield am safon ei waith ef ac am ennill gwobr o £40 iddo'i hun a £100 i'r ysgol drwy ysgrifennu llythyr llwyddiannus i'r cylchgrawn Cip.

Cafwyd diwrnod llwyddiannus arall yng nghwmni'r Brodyr Gregory oedd wedi ymweld â'r ysgol i gyflwyno pwysigrwydd Diogelwch ar ein Ffyrdd. Roedd hon yn sioe arbennig a diolchwn i'r Adran Briffyrdd am ariannu'r gweithgarwch.

Cyn i ni droi at weithgarwch sy'n gysylltiedig a chasglu arian tuag at y cyfarpar chwarae i'r ysgol newydd carem longyfarch aelodau o gôr a cherddorfa Ceredigion am eu diddordeb a'u hymdrech. Llion Thomas, Yvonne Hughes, Ceri Jenkins, David Bowler, Lowri Jones a Chloe Richardson yw'r plant. Ein diolch hefyd i'w hathrawes Mrs Carys Lewis am drefnu.




Amanda Hunt, Leighton Edgell, Lisa Stephens, Syakira Aina Tarmizi, Ryan Bennett, Lydia Thickett, Ella Bryden, Ellen Edwards a Lucy Arthur - diolch i chi gyd. Fe gasglon nhw £550 i'r gronfa - gwyh. Diolch hefyd i'r staff a fu'n goruchwyllo Shân Evans, Caroline Evans, Anthea Jones, Rhian Evans a Llinos Jones. Da iawn bawb.

Yn olaf cynhaliwyd Dawns Haf Fawreddog yng Ngholeg Dewi Sant i ddathlu llunio ysgol gynradd gymunedol newydd yn Llambed. Daeth bron 200 o bobl at ei gilydd gan gynnwys Y Cyfarwyddwr Addysg a Gwasanaethau Cymunedol, Mr Gareth Jones a'i wraig, Maer y Dref Mr Chris Thomas a'i wraig yntau a swyddogion y Gymdeithas Rien i ac Athrawon a'r Llywodraethwyr. Daeth llu hefyd o rieni a ffrindiau'r ysgol i fwynhau gyda'r staff.

Croesawyd pawb gan Gadeiryddes y Gymdeithas Rien i ac Athrawon a dywedwyd gair gan Mr Gareth Jones cyn i bawb fwynhau eu pryd. Trefnwyd raffl gan Mrs Llinos Jones a Mrs Rhian Evans ac ar ôl gair byr gan y prifathro cynhaliwyd ocsiwn o dan forthwyl Mr Andrew Morgan, Cadeirydd y Llywodraethwyr. Mawr yw diolch yr ysgol i bawb a gyfrannodd wobrau ac eitemau i'r raffl a'r ocsiwn ac i bawb a wnaeth y noson yn llwyddiant. Dawnsiwyd tan oriau mân y bore i Phil Dando a'i Fand a noddwyd bron yn llawn gan Fanc Barclays. Trwy ychwanegu rhodd hael arall a ddaeth o gwmni adeiladu yr ysgol newydd Dean a Dyball cliriwyd costau'r gerddoriaeth. Noson i'w chofio felly a diolch i bawb.

Edrychwn ymlaen at ddawns y plant nesaf a fydd yn cymryd lle yn yr ysgol newydd ar Orffennaf 13. Mae'r disgyblion yn prysur ddewis eu partneriaid a'u gwisgoedd! Penderfynwyd er mwyn i'r plant gofio'r achlysur ein bod trwy un o'n cynorthwywyr Mrs Marlene Davies yn tynnu lluniau o'r grwpiau gwahanol o ffrindiau a chyflwyno copi er cof i bob plentyn.

Mae terfyn y paratoi adeiladol yn dod i ben yn raddol a'r lloriau a'r carpedi yn awr yn cael eu rhoi yn ei lle. Daw'r dodrefn i law dros yr haf a'r staff yn cael cyfle yn yr wythnos gyntaf ym Medi i leoli popeth. Caiff y plant felly wyliau ychwanegol - ond yw bywyd yn braf arnynt!



“Bwyd Braf o’r Barbeciwr”

Beth am adael gwres y gegin a throi at wres y barbeciwr allan yn yr ardd, yn yr awyr agored. Cyfle da efallai i gael y dyn yn y teulu i goginio.

Mae yna ddewis eang o wahanol declynnau barbeciwr ar gael – ond rhaid cyfaddef mae y steil henffasiwn ‘golosg’† sydd orau gennyf i gan ei fod yn ychwanegu at flas barbeciwr hyfryd i’r bwydydd.

“Tips Tanio”

Gofalwch fod y golosg ar dymheredd cywir cyn ychwanegi bwydydd. (fe gymer 25 i 30 munud cyn i’r golosg droi yn wyn a bod yn barod).

Defnyddiwch offer gwahanol i drin y bwyd amrwd yn wahanol i’r bwyd sydd wedi’i goginio.

Rhowch haenen o olew dros y bwydydd i osgoi iddynt lynnu ar y barbeciwr.

Gofalwch beidio a throi y bwydydd yn ormodol wrth goginio.

Felly, - edrych ymlaen am ‘haf braf’ er mwyn cael tanio’r barbeciwr yn ardaloedd ein papur bro ‘Clonc’.

Mwynhewch yr Haf,

Hwyl! *Gareth.*

†Golosg – Charcoal.

Brige, Cig a Chnau.

Cynhwysion-

5 owns o gig cyw iar

5 owns o stêc

5 owns o gig porc

Marinêd

Llund llwy fwrdd o olew’r olewydd


Un ‘chilli’ coch

3 llond llwy fwrdd o saws ‘soy’.

1 llond llwy fwrdd o siwgwr brown

Sudd 1 leim

1 llond llwy de o bast cyrri



Saws

Un ewin o arleg

5 llond llwy fwrdd o ‘fenyn pysgnau,’ (Peanut butter).

Sudd 1 leim

2 llond llwy fwrdd o ddŵr.

Dull

1. Rhowch 12 brigyn Cibab mewn dŵr oer am tua ugain munud.
2. Torrwch y cig yn ddarnau a’u rhoi ar y brigau, gosodwch mewn dysgl.
3. Cymysgwch y marinêd gyda’r cynhwysion ac arllwyswch dros y cig; gadewch i aros am tuag awr.
4. Tynnwch o’r gymysgedd a brwsiwch ag olew a’u barbeciwo am tua deg munud.
5. Cymysgwch gynhwysion y saws a gweinwch gyda’r cig.

Byrgers Cyw Iar

Cynhwysion

1 pwys o gig cyw iar wedi’i ddarnio

6 sleisen o gig mochyn

1 llond llwy fwrdd o olew’r olewydd

Ewin garlleg

1 winwnsyn bach wedi’i ddarnio


2 owns o friwsion bara

Salad

Saws i’w weini

2 llond llwy fwrdd o fargerine

1 llond llwy de o fwstard



Dull

1. Rhowch y cyw iar a’r cig mochyn mewn prosesydd a darniwch yn fras.
2. Rhowch y cyfan mewn padell gyda’r garlleg, winwnsyn, a’r briwsion bara.
3. Ychwanegwch bupyr a halen a ffurfiwch y gymysgedd fel byrgers
4. Oerwch am ½ awr a brwsiwch ag olew.
5. Coginiwch am ¼ awr. Tostiowch rhai byns ar y barbeciwr a gweinwch gyda’r saws.



Cegin Gareth

Goedwig

Llanbedr P.S.

SA48 7JP

01570 422 313

Blodau

Cacennau

Dathliadau

Partïon

Colofn Dylan Iorwerth

Neges yn y glaw

Edrych trwy’r ffenest y swyddfa yr o’n i ... a, chyn i chi ddweud, dydw i ddim yn gwneud hynny fel arfer.

Ond, y diwrnod arbennig hwnnw, roedd hi’n anodd peidio. Roedd hi’n bwrw fel na fuodd hi erioed yn bwrw o’r blaen. Tresio bwrw, fel y baswn i’n dweud yn y Gogledd ... er bod gair arall yn addas hefyd.

Roedd curo’r diferion ar y to yn ei gwneud hi’n anodd gweithio a phistyll swnllyd o ddŵr yn rhaeadru o’r cafnau ar y to.

Roedd hi’n bwrw fel y bydd hi yn yr hen ffilmiau ‘horror’ yna slawer dydd ... a ninnau’n arfer chwerthin a dweud fod glaw fel yna’n gwbl amhosib. Ond mae’n bosib, ac mae wedi cyrraedd Llanbed.

Afon oedd y tu allan i’r ffenest. Ffordd sydd yno fel arfer. Ac roedden ni wedi gwyllo’r draen wrth y swyddfa’n llenwi. Am gyfnod, roedd yn llyncu’r llif ac, wedyn, o fewn ychydig eiliadau, roeddech chi’n gweld y dŵr yn codi o dan y gril ac yna’n llifo trosto.



Yn ôl ymholiadau gan ohebwyrr Golwg, doedd y rhybudd llifogydd sydd yn Llanbedd ddim wedi gweithio, a hynny am reswm syml. Roedd y glaw wedi dod yn rhy gyflym a rhy chwynn.

Rhybuddio am lefel dŵr mewn afonydd y mae’r system, ond doedd y cenlli mawr ddim wedi cyrraedd y rheiny. Codi pais ar ôl bechingalw oedd hi yn achos y dechnoleg soffistigedig.

Dyma’r arwydd cliria’ i ni fod yr hinsawdd yn newid. O edrych ar y misoedd diwetha’ mae’n dechrau edrych fel ein bod ni’n cael tymhorau gwlyb a thymhorau sych, bron fel gwledydd trofannol.

Glaw trofannol oedd yn Llanbedd y diwrnod o’r blaen. Dim ond yn ne’r Eidal y gwelais i ddim byd tebyg. Nid glaw bywiol oedd hwn, ond glaw sy’n dinistrio cnydau a bywydau hefyd.

Dyna pam fod angen meddwl ddwywaith a thair cyn credu’r bobol sy’n dweud y bydd cynhesu’r ddaear yn arwain at dywydd braf ... y bydd Cei Newydd fel Cannes ac Aberaeron fel Abu Dhabi.

Ac roedd yna neges yn y draeniau hefyd. Mi fyddai angen gwario ffortiwn ar greu draeniau sy’n ddigon mawr i dderbyn dŵr o’r fath ac, o wneud, mae’n siŵr y byddai glaw gwaeth fyth yn dilyn.

Yr unig ateb yn y pen draw ydi trio atal y newid, neu, o leia’ ei arafu. Wrth i’r glaw guro ar do’r swyddfa a’r ffenestri, dyna oedd y neges ... fel morse code y tywydd.

Dw i wedi bod yn llygadu’r botel sauerkraut ers tro. Mi fydd rhaid mentro cyn bo hir. Ac mae yna stori fawr yn hynny.

Yn Siop y Bont, Llanybydder, y mae hi, ar silff wrth ochr math o goulash a phethau o’r fath. A’r ysgrifen ar ei hochr mewn Pwyleg, yn ogystal â Saesneg.

Maen nhw’n dweud y gallwch chi ddeall hanes gwlad oddi wrth yr hyn sydd ar silffoedd ei siopau ac mae hynny’n wir yn ardal Llanbedd heddiw. Mae’r siopwyr yn ymateb i’r ffaith fod yna farchnad newydd wedi landio ar garreg eu drws.

Mae gyda ninnau ddau ddewis – edrych ar y peth fel bygythiad, neu fwynhau’r amrywiaeth. Gwgu ar y sauerkraut neu roi cynnig arno.

Mae yna rai gwleidyddion (gweddol) gall wedi galw am brofion ar bobol o ffwrdd sy’n dymuno setlo yng ngwledydd Prydain. Eisiau iddyn nhw basio prawf iaith a dangos eu ffyddlondeb.

Meddyliwch pe bai pobol o’r Deyrnas Unedig yn gorfod gwneud hynny cyn cael setlo yn Ffrainc neu dde Sbaen ... au revoir ac adios fyddai hi, ond nid yn yr ieithoedd brodorol.

Meddyliwch pe baen ni’n gwneud hynny i bobol sy’n symud i mewn i ardaloedd Cymraeg fel Ceredigion o rannau eraill o’r Deyrnas Unedig – prawf siarad Cymraeg ac addewid eu bod am wneud eu gorau i ffitio i mewn gyda’n ffordd o fyw.

Mi fyddai’r Range Rovers a’r hen grocs fel ei gilydd yn ei gwneud hi ar sbîd mawr i gyfeiriad y ddwy bont tros yr Hafren.

CWRTNEWYDD

Ysgol Cwrtnewydd

Pleser yw hysbysu ein bod wedi derbyn Marc Safon yr Asiantaeth Sgiliau Sylfaenol i Ysgolion Cynradd am yr eildro.

Cynhaliwyd ein Gweithgareddau Calan Mai eto eleni. Cafwyd diwrnod sych a heulog a chafwyd cefnogaeth arbennig gan y gymuned eang.

Braf oedd croesawu Mrs Linda Davies, cyn-athrawes yn nosbarth y babanod i ymuno â ni yn llywydd y dydd a chyfrannodd yn hael tuag at yr achos. Cafwyd araith bwrpasol ganddi a chyflwynwyd rhoddion iddi gan Hanna Davies a Beca Jenkins.

Uchafbwynt y dydd oedd y rasys amrywiol lle cafwyd cefnogaeth rhedwyr o bell ac agos.

Enillwyd y darian am y plentyn cyflymaf o ysgol Cwrtnewydd gan Rhodri Hatcher a gwobrwywyd y canlynol yn ogystal:

Bechgyn yr ysgol 1af Rhodri Hatcher, 2il Daniel Morgans, 3ydd Rhys Davies. Merched yr ysgol 1af

Luned Jones, 2il Imogen Furlong, 3ydd Kelly Jones.

Mr Dewi Jones, Blaenhirbant uchaf oedd ein harwerthwr eleni eto. Llwyddodd i werthu'r platiau a'r byrgyr am bris sylweddol.

Ar ôl yr holl waith caled a bwrlwm cyffrous y dydd, codwyd swm anhygoel o £4500 tuag at gronfa'r ysgol.

Rwy'n siwr fod codi swm arian fel hyn, mewn diwrnod, yn gwneud Ysgol Cwrtnewydd yn ysgol unigryw iawn!

Ymunodd ysgolion Cribyn, Llanwenog a Llanwnnen â ni i wyllo perfformiad gan y Brodyr Gregory a'u ffrindiau Ceredig Cob ac Aled Ailgylchu. Cafwyd awr o adloniant ganddynt yn cyfleu pryderon y ffordd fawr a phwysigrwydd ailgylchu. Braf oedd gweld yr holl blant yn ymuno yn y canu ac yn mwynhau'r perfformiad.

Aeth plant blwyddyn 6 i ymweld ag Ysgol Uwchradd Llanbed yn ddiweddar. Cawsant gyfle i gwrdd â rhai o'r athrawon a chael blas ar fywyd ysgol uwchradd.

Cynhaliwyd diwrnod o chwaraeon ar gaeau yr ysgol uwchradd i blant blwyddyn 5. Bu'r plant yn ymrwymo mewn nifer o wahanol weithgareddau addysg gorfforol yn ystod y dydd.

Llongyfarchiadau arbennig iawn i ferched y Parti Unsain a gipiodd y wobr gyntaf yn yr Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd Sir Gâr 2007. Braf oedd eich gweld ar y sgrîn fawr!

Llongyfarchiadau mawr hefyd i Keanu-Ryver Lye ar ennill yr ail wobr yn yr adran Gelf a Chrefft yn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd, Sir Gaerfyrddin 2007.

Diolch o waelod calon i bawb am bob cefnogaeth a chyfraniad tuag at ein gweithgareddau Calan Mai. Fe'i gwerthfawrogyd yn fawr iawn.

Hoffwn hefyd estyn ein gwerthfawrogiad tuag at y bobl fu'n hyfforddi'r plant ac i'r sawl fu'n eu cludo i'r ymarferion.

Ymunodd plant blwyddyn 5 a 6 ysgolion Cribyn, Llanwenog a Llanwnnen â ni am fore o 'Faths Magic' yn neuadd yr ysgol. Cafwyd bore llawn hwyl a sbri lle'r oedd un ar bymtheg o dimoedd yn cystadlu yn gystadleuol drwy'r bore. Enillwyr y gystadleuaeth oedd Daniel Morgans, Rhian Gutteridge, Aaron Hunter a Lauren Jones o ysgol Cwrtnewydd.

Aeth tîm o'r ysgol yng nghwmni Miss H Jones a Miss Davies i Bencampwriaeth Athletau Ysgolion Dyfed. Cafodd y plant gyfle i gystadlu mewn awyrgylch cystadleuol tu hwnt. Fe wnaeth y plant elwa'n fawr wrth gystadlu ymysg athletwyr safonol.

Ar brynhawn Mercher y trydydd ar ddeg bu'r plant yn cymryd rhan mewn sgipathon noddedig i godi arian tuag at y 'British Heart Foundation'. Cafwyd brynhawn sych. Pleser yw cael dweud ein bod wedi codi swm arbennig o £800 tuag at y gronfa yma. Da iawn blant!

Cynhaliwyd mabolgampau blynyddol yr ysgol ar brynhawn dydd Iau. Cafwyd cystadlu brwd rhwng y tri thîm ond er gwaethaf popeth fe ddaeth y glaw ac amharu ar ein mabolgampau, felly bu rhai ei gohirio. Nid oedd y glaw yn mynd i'n stopio felly dyma'r rhieni ar ffrindiau'r ysgol yn dychwelyd y diwrnod canlynol i gefnogi'r plant. Aethpwyd ymlaen a'r tro yma gorfennwyd y prynhawn. Cyflwynwyd tarian i gapteiniaid y tîm buddugol sef Elinor Jones a Daniel Garside o'r tîm coch. Yn dod i'r brig ac yn ennill y tarianau am yr athletwyr gorau oedd Elinor Jones a Daniel Garside. Llongyfarchiadau i bawb a wnaeth ymdrech mor dda yn ystod y ddau ddiwrnod.

Mae plant blwyddyn 5 wrthi'n mynychu sesiynau gloywi iaith yng

nghanolfan iaith yn yr ysgol uwchradd, Llanbed.

Cynhaliwyd noson lwyddiannus yn ddiweddar i godi arian tuag at gronfa'r ysgol drwy gynnal parti colur a gemwaith Virgin Vie. Trefnwyd y noson gan Mrs Alwena Williams. Cafodd pawb dipyn o hwyl!

Bu tair o ferched blwyddyn 6 sef Elinor Jones, Gwawr Hatcher a Meleri Davies yn canu ymysg tua tri chant o blant ysgolion Ceredigion yng Nghôr Cynradd Ceredigion 2007. Cynhaliwyd y noson yn y Neuadd Fawr, Aberystwyth o dan arweiniad Mr Emyr Wynne Jones.

Cafodd merched y Parti Unsain eu gwahodd hefyd i berfformio'r darn a enillwyd yn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd eleni. Braf oedd gweld y marchod yn rhoi o'i gorau unwaith eto!

Fel rhan o ddigwyddiadau'r calendr 'Darllen Miliwn o Eiriau', cafodd y plant siawns i ddylunio uwcharwr ar gyfer y prosiect. Roeddwn yn falch o glywed bod Keanu-Ryver Lye o'r ysgol wedi ennill y gystadleuaeth. O ganlyniad i hyn, mae Keanu-Ryver wedi ennill £50 a £500 i'r ysgol. Llongyfarchiadau mawr i ti!

Cafodd blwyddyn 3 a 4 y siawns i wella'u sgiliau rygbi dan hyfforddiant Gareth Williams, swyddog datblygu rygbi Ceredigion fel rhan o gynllun Rygbi'r Ddraig. Er gwaetha'r glaw a'r mwd, cafwyd hwyl gan bawb.

Bu plant blwyddyn 4, 5 a 6 yn dathlu pen blwydd Gwersyll yr Urdd Llangrannog yn 75 oed, ar ddydd Gwener, Mehefin 22ain. Yn ystod y diwrnod buont yn canu gyda Gwenda Owen a chafodd pob plentyn gyfle i adael balwn i hedfan i ffwrdd. Cynhaliwyd twmpath dawns o dan arweiniad Jac y Do.

Swydd Newydd

Dymunwn longyfarch Carys Griffiths, Fronddu ar gael ei apwyntio fel athrawes CA2 yn Ysgol Gynradd Aberaeron. Hefyd i Tracey Evenden, Gwalia, Cae Sarn ar gael swydd fel cynorthwy-wraig gofal yn Ysgol Gynradd Pontsian. Pob dymuniad da i chi eich dwy i'r dyfodol.

Cydymdeimlo

Estynnwn ein cydymdeimlad dwysaf gyda Nel Price, Glasnant a'r teulu oll yn eu galar o golli mam a mam-gu annwyl ym mherson Mrs Nancy Davies, Castle Green gynt a fu farw ar ddechrau'r mis. Bu'r angladd yn breifat yng Nghapel y Bryn ac yna roddwyd ei gweddillion i orffwys.

Gwellhad Buan

Gobeithio fod Mrs Rachel Davies, Afonog yn well yn dilyn ei chwymp beth amser yn ôl a hefyd i Cornelius Richards, Gwarnant a dreuliodd peth amser yn Ysbyty Glangwili ar ddechrau'r mis.

Capel y Bryn

Bu Naiomi Long yn cyhoeddi emyn ar ran Capel y Bryn yng Nghymanfa Ganu'r Undodiaid yn Llambod yn ddiweddar a hithau ond yn 4 oed, mae dyfodol disglair o flaen hon!

**Sioe Amaethyddol
Llanbedr Pont Steffan**
Caeau Pontfaen

Dydd Gwener Awst 17eg
Llywydd: Mr Raymond Roberts,
Gelli Aur, Parcyrhos

Oedolion £5, Plant dan 14 £1
Rygbi 7 bob ochr a disco

Manylion:
Mrs Gwen Davies 01570481152
Mr Aeron Hughes 01570422654

Cyrol Cymeriadau Bro

Wedi meddwl am anrhegion Nadolig eto? Bydd CLONC mewn cydweithrediad â'r Prosiect Papurau Bro yn cyhoeddi cyfrol ddiddorol iawn erbyn mis Hydref. Cyfrol o holl gymeriadau bro a ymddangosodd yn CLONC dros y degawd diwethaf yw hi, gan Is-Gadeirydd y papur – Twynog Davies. Anrheg ddelfrydol i sawl un!

Cyhoeddir y gyfrol hon fel rhan o ddathliadau pen-blwydd CLONC yn chwarter canrif oed.

Efallai y gallwch gofio darllen am rai o'r cymeriadau, ond y syndod yw y cyhoeddwyd 45 ohonynt!

Cronicleir, yn aml, y digwyddiadau a lunia hanes ardal, ond y cymeriadau oedd yn rhan annatod o gymuned arbennig ar adeg benodol a geir yma, a'r cyfan wedi eu hysgrifennu yn ffordd gartrefol, di ffwdan ac unigryw Twynog.

Yn anffodus, bu farw rhai o'r cymeriadau yn y blynyddoedd diwethaf, a bydd eu portreadau yn y gyfrol hon yn gof teilwng iddynt. Mae rhan fwyaf o'r bobl oedd yn destun i golofnau Twynog dal yn gymeriadau gweithgar a hoffus yn y gymuned hon, a braf yw cael cyhoeddi eu storïau mewn cyfrol i'r gynulleidfa ehangach gael darllen amdanynt.

Sicrhewch eich copi chi o'r gyfrol. Gellir tanysgrifio a sicrhau eich enw ar restr y tanysgrifwyr ynddi. Bydd stodin gan CLONC yn nifer o ddigwyddiadau'r haf yn yr ardal fel Eisteddfod Rhys Thomas James a'r sioeau. Bydd y gyfrol yn costio o gwmpas £4 – bargaen, ond fe gadarnheir y pris cywir yn ystod yr haf ac yn rhifyn Medi.

Bydd y gyfrol ar werth yn y siopau hefyd, ond rhagwelir tipyn o alw amdani, felly anogir darllenwyr CLONC i danysgrifio rhag cael eich siomi.

Gellir cael mwy o fanylion drwy ffonio swyddfa'r Prosiect ar 423410, neu ysgrifenyddes CLONC ar 480015.



Dion George o dîm pêl-droed Teifi Girls yn ennill gwobr Chwaraewriag Orau'r Twrnament yn Aberaeron.



Plant Ysgol Sul Rhydybont, Llanybydder gyda'r Parchedig a Mrs Huw Roberts ac athrawes Betty Jones yn llongyfarch Elonwy Davies ar dderbyn Tlws John a Ceridwen Hughes yn Eisteddfod Yr Urdd Sir Gâr am ei gwaith gwirfoddol i ieuencid yr ardal.

O San Steffan gan Mark Williams AS

Gwnaeth ein hymgeisydd Cynulliad dros Ddemocratiaid Rhyddfrydol Cymru, John Davies, ymgyrch rhagorol a arweiniodd at ganlyniad ardderchog ar ddechrau mis Mai. Aeth ei bleidlais i fyny dros 3,500 - cynnydd o 8% yn ei gyfran bleidleisio ers 2003. Ond, hoffem gymryd y cyfle hwn i longyfarch Elin Jones ar gael ei haillethol a rwy'n ffyddiog y byddwn yn cydweithio yn y dyfodol, fel yr ydym wedi bod yn gwneud dros y ddwy flynedd diwethaf, ar faterion sy'n poeni'r gymuned, megis dyfodol y GIG am un peth.

Yn San Steffan, roeddwn wrth fy modd yn ddiweddar fy mod wedi llwyddo i gael dadl ar ddyfodol ffermio llaeth. Hon oedd y ddadl gyntaf o'i math ers Tachwedd 2005 ac roedd hi'n hen bryd i ni ei chael. Fel y dywedais wrth y Gweinidog Ben Bradshaw, fy mhrif bryder oedd y rheolaeth a'r dylanwad parhaus sydd gan yr archfarchnadoedd dros bris llaeth. Mae hwn, ynghyd â gofynion y rheolau drudfawr a'r cynnydd mewn gorbenion, yn golygu bod ffermydd llaeth dan fwy o bwysau nag erioed o'r blaen. Yn ystod y pum mlynedd diwethaf yn unig, mae'r nifer o ffermwyr llaeth yng Nghymru wedi disgyn 30%, i ychydig dan 2,400.

Mae angen help yn druenus ar ffermydd teuluol yng Nghymru i gael bargaen well o'n archfarchnadoedd. Mae angen i gewri fel Tesco, Sainsbury's ac ASDA sylweddoli bod ganddynt gyfrifoldeb cymdeithasol tuag at ddiogelu diwydiant llaeth y DU, yn ogystal â chynnal cymunedau gwledig iach a byw. Cydnabyddodd y Gweinidog rhai o'r problemau, ond mae'n parhau i wrthod gweld bod y farchnad yn siomi ffermwyr llaeth, ac mae angen i ni weithredu'n syth i ddelio â hyn. Fel y dywedais wrth y Gweinidog, rydw i eisïau gweld Arolygwr Masnach Bwyd sydd â'r gallu i wneud archwiliadau rhagweithiol ar gamddefnydd o bŵer marchnad ym mhob rhan o'r gadwyn gyflenwi a sicrhau bargaen deg i ffermwyr Cymru.

Mae dyfodol ein Swyddfeydd Post wedi bod yn y newyddion mis yma hefyd, gyda rhaglen gau enfawr Llywodraeth Lafur yn parhau i fod ar eu agenda. Gallai hyn arwain at gau 2,500 o Swyddfeydd Post ledled y DU ac, fel y mae arolwg diweddar a wnaed gan Gyngor ar Bopeth yn dangos, mae trigolion cefn gwlad yn poeni'n ddirfawr y gallent golli adnodd achubol. Mae Democratiaid Rhyddfrydol Cymru eisïau i'r Llywodraeth sylweddoli bod Swyddfeydd Post yn gysylltiedig â siop y pentref neu'r garej leol yn aml mewn cymunedau cefn gwlad. Pe bai'r Swyddfa Bost yn cau, gallai'r siop neu garej orfod cau hefyd.

O'r Cynulliad gan Elin Jones AC

Mae'n parhau i fod yn gyfnod prysur yn y Cynulliad wrth i'r pleidiau barhau i drafod y posibilrwydd o ffurfio llywodraeth glymblaid. Yn y cyfamser, mae'r gwaith o gynrychioli pobl Ceredigion ym Mae Caerdydd yn parhau. Un o ddatganiadau cyntaf Llywodraeth Lafur leiafrifol Rhodri Morgan oedd y moratoriwm ar israddio ysbytai. Ar yr olwg gyntaf, mae'n ymddangos bod y Blaid Lafur wedi gwrandao ar brotest pobl Ceredigion ynglŷn â'r bwriad i israddio Ysbyty Bronglais ynghyd ag ysbytai cymunedol Tregaron ac Aberteifi. Fodd bynnag, rhaid cael trafodaeth ystyrlon er mwyn sicrhau nad geiriau gwag yw'r moratoriwm hwn. Yn benodol, rwyf wedi galw ar i Lywodraeth y Cynulliad ddatblygu polisi iechyd gwledig er mwyn sicrhau eu bod yn ystyried anghenion ardaloedd gwledig fel Ceredigion yn hytrach na cheisio datblygu polisi newydd ar gyfer Cymru gyfan - mae ein hanghenion ni yn y wlad yn wahanol i anghenion trigolion ardaloedd trefol.

Ar ddechrau mis Mehefin, cefais yr anrhydedd o fynychu cyfarfod blynyddol Undeb Amaethwyr Cymru ble gwnes dderbyn gwobr mewn cydnabyddiaeth am fy nghyfraniad i fyd amaeth. Rwy'n falch iawn bod aelodau'r Undeb wedi penderfynu rhoi'r anrhydedd imi eleni. Rwyf hefyd yn falch iawn bod y Gweinidog newydd dros Amaeth, Jane Davidson, wedi cadarnhau y bydd yn parchu'r bleidlais a fuodd yn y Cynulliad ym mis Mawrth i wrthwynebu'r cynlluniau i dorri arian ar gyfer Tir Mynydd yn y gyllideb wledig. Serch hynny, mae'r diwydiant amaethyddol yng Ngheredigion yn parhau i wynebu sialensiau mawr ac yn ddiweddar, rwyf wedi bod yn tynnu sylw at yr effaith mai mewnforio cig oen o Seland Newydd yn ei gael ar ein ffermwyr.

Er gwaethaf y tywydd gwael a gafwyd yn ystod mis Mehefin - yn enwedig yn ardaloedd fel Llambod a Borth - rwy'n gobeithio bydd tywydd gweddill yr haf tipyn yn well. Mae tymor y sioeau eisoes wedi cychwyn ac fe fynychais Sioe Aberystwyth ychydig wythnosau'n ôl. Yn ystod mis Gorffennaf fe fyddai'n mynychu'r Sioe Frenhinol yn Llanelwedd - edrychaf ymlaen at eich gweld yno!

Creative Cove

40A Y Stryd Fawr,
Llambod, ☎ 421985



Ystod eang o offer swyddfa a deunyddiau celf a chrefft am brisau cystadleuol iawn.

Yn cynnwys:

- Certris inc a deunyddiau cyfrifiaduron eraill, - cardiau cyfarch,
- mapiau arolwg ordnans,
- deunyddiau postio a phacio,
- deunyddiau gwneud cardiau a llyfrau lloffion, - pecynnau crefft i oedolion a phlant,
- paent Winsor a Newton,
- padiau brasluniau arlunwyr, cynfas a phapur dyfriliw.

RHODRI ELIAS

Peiriannydd Gwresogi Olew

Yn cynnig gwasanaeth i'r tair sir.
RHODRI ELIAS
Wedi lleoli yng Nghaerfyrddin



- Trwsio a gwasanaethu pob math o foileri olew gan gynnwys stôfiau megis AGA, RAYBURN a STANLEY.
- Asesiadau OFTEC wedi eu pasio.
- Telerau da i gwsmeriaid newydd.
- Ffoniwch neu edrychwch ar y wefan am brisiau.

Ffôn: (01267) 230 875
Symudol: 07896 891 733
rhodri@olew.co.uk
www.olew.co.uk

Cadwch y tocyd yma i gael 10% i ffwrdd

Rhodri Elias

Ffôn: (01267) 230875 Symudol: 07896 291733



Masnachwyr Amaethyddol

☎ 01570 422540

Melin Mark Lane, Stryd y Bont,
Llanbedr Pont Steffan

Am holl fwydydd a mwyddau amaethyddol, cysylltwch â ni.

WILLIAMS & BOURNE

CYFREITHIWR,
COMISIYNNWYR LLWON

Trosglwyddiadau a phob gwasanaeth cyfreithiol. Ymweliadau â'r cartref yn bosibl.

1 Sgwâr Harford,
Llambod

☎ 01570 422206 ☎ 01570423540

A thrwy apwyntiadau yn Nhgareg, Llanybydder, Castell Newydd Emlyn a Chaerfyrddin.

CEGIN GWENOG CATERING

Y gwasanaeth arlwyio cyflawn ar gyfer bob achlysur:

Priodas; Penblwydd;
Bedydd; Angladd;
Cinio Busnes;

Digwyddiadau Maes,
Bwydlenni unigol i ateb eich gofynion chi - boed yn fawr neu'n fach

Cyswllt: Mrs Mair Hatcher
Abernant, Llanwenog, Llanybydder, SA40 8UR
☎ 01570 481230 ☎ 07967 559683

Taith Hanes Cymdeithas Bethel Parcyrhos

Ym mis Mai trefnwyd taith y Gymdeithas gan y Llywydd David Thorne ar y themau Ffynnon Teilo a ffynhonnau eraill, Llwybrau Teilo a llwybrau eraill. Cafwyd hanes Llandeilo yn y rhifyn diwethaf CLONC. Dyma weddill o'r hyn a baratodd yn ysgrifenedig ar gyfer aelodau a ffrindiau'r Gymdeithas a fynychodd y daith.

Talylylchau

Lleolir pentref Talylylchau ar ben dau lyn, ac mae'r enw yn adlewyrchu ei leoliad: tal ('pen') a llychau, ffurf luosog ar llwch 'd'r gloyw'. Yn y llynnoedd y byddai canoniaid yr abaty yn pysgota ar gyfer dydd Gwener ac ar gyfer y Grawys. Mae'r un elfen yn digwydd yn yr enw Llchwyr (Casllwchr, Llygad Llchwyr ac Afon Llchwyr) ac yn enw tref Looe yng Nghernyw.

Tua 530 yw poblogaeth ward Cymuned Talylylchau erbyn hyn ac mae 48% yn siarad Cymraeg.

Mae dau hen gapel ym mhlwyf Talylylchau: Capel Mihangel a Chapel Teilo. Yr hen enw ar Gapel Mihangel oedd Llanfihangel Cefnrhos. Yr hen enw ar Gapel Teilo oedd Capel Teilo Garthdefyr.

Mae'r eglwys yn Nhalylylchau wedi'i chysgru i Mihangel Sant, yr archangel Mihangel. Mae Mihangel yn cael ei goffâu hefyd mewn eglwysi eraill yn yr ardal – Llanfihangel-ar-arth, Llanfihangel Rhos y Corn, Llanfihangel Aberbythych, Llanfihangel Abercywin, Llanfihangel Cil-y-cwm.

Yn wahanol i Teilo, sant o dramor yw Mihangel ac mae'n un o'r ychydig seintiau o dramor a ddaeth yn boblogaidd yng Nghymru. Ac fel a ddigwyddodd yn achos Teilo bu rhaid ychwanegu elfen arall at enw Mihangel er mwyn gwahaniaethu rhwng y gwahanol eglwysi sydd wedi'u cysegru iddo. Yn ôl traddodiad 'Mihangel' oedd bloedd rhyfel yr angylion 'da' yn eu brwydr yn y nefoedd yn erbyn yr angylion 'drwg'.

Sefydlwyd Abaty Talylylchau gan Rhys ap Gruffydd, yr Arglwydd Rhys, tua 1185 a deuai'r canoniaid o Amiens yng ngogledd-ddwyrain Ffrainc. Dyma'r unig abaty o eiddo'r Premonstratensiaid i'w sefydlu yng Nghymru; fe'u gelwid 'Y Brodyr Gwynion' yng Nghymru oherwydd lliw eu gwisg. Nid mynachod fel y cyfryw oedd y Brodyr Gwynion: rhoddent bwyslais, yn hytrach, ar bregethu'r gair ac ar waith bugeiliol. Dilynent ddisgyblaeth lem yn seiliedig ar ddysgeidiaeth Awstin Sant.

Buan yr aeth y Brodyr Gwynion i drafferthion yn Nhalylylchau: nid oedd gwaddol yr Arglwydd Rhys yn ddigonol at anghenion codi a chynnal abaty mawreddog ar y safle yn Nhalylylchau; bu cyfreitha costus rhyngddynt â'r Sistersiaid a oedd wedi ymsefydlu yn Hendygywyn ar Dâf; tlodwyd hwy ymhellach gan yr ansicrwydd a achoswyd gan rhyfeloedd Edwart I.

Disgrifir safle'r Abaty, er nad yr Abaty ei hun gan Gerallt Gymro a bernir nad yw'r tirwedd wedi newid fawr o ran ei ffurf ers ei gyfnod ef.

Mae'n amheus a gwblhawyd yr abaty yn unol â'r cynlluniau uchelgeisiol gwreiddiol. Claddwyd Rhys Fychan, gorwyr yr Arglwydd Rhys, yn yr abaty yn 1271. Mae Dafydd ap Gwilym (1315/20-1350/70) hefyd yn gorwedd yma o bosibl.

Llwyddodd yr abaty i lusgo byw tan ei ddiddymu gan Harri'r VIII yn 1536 pryd yr oedd 8 o ganoniaid yma. Dinistriwyd y rhan fwyaf o'r adeiladau er i eglwys yr abaty (a gysegrwyd i'r Forwyn Fair ac i Ioan Fedyddiwr) gael ei hachub at ddefnydd y plwyf tan 1772. Erbyn hynny yr oedd cyflwr eglwys yr abaty wedi dirywio i gymaint graddau fel y bu rhaid ei chwalu; defnyddiwyd llawer o'r cerrig i

adeiladu'r eglwys bresennol, ychydig i'r gogledd o'r Abaty, gyda nawdd teulu Williams, Edwinsford. Mae'r seddau caeedig gwreiddiol o'r 18fed ganrif i'w gweld o hyd, pob un wedi'i rifo a'i raddio ar gyfer teulu Edwinsford, eu gweithwyr a'u tenantiaid. Ysbeiliwyd cerrig o'r abaty hefyd i godi llawer o adeiladau eraill yn lleol. I'r de o'r Abaty mae Y Plas a adeiladwyd gan Syr James Hamlyn-Williams, Edwinsford yn nechrau'r 1830'au. Saif Tŷ Talylylchau oddi ar yr heol ac mae'n dyddio o gyfnod cynharach. Fe'i hailadeiladwyd tua diwedd y 18fed ganrif a gwnaed ychwanegiadau pellach yn yr 1830'au.

Enw arall ar yr y Brodyr Gwynion yw'r Norbertiaid, ar ôl eu sylfaenydd yr Archesgob Norbert o Magdeburg.

Yn 2003 derbyniwyd grant o £12,000 i ddiogelu'r eglwys bresennol gan Cadw ynghyd â £10,800 ar gyfer Neuadd yr Eglwys.

Mae'r ddau lyn yn Nhalylylchau yn warchodfeydd natur pwysig ac fe'u ffurfiwyd yn ystod Oes yr Ia. Rheolir y llyn isaf gan Ymddiriedolaeth Bywyd Gwyllt Dyfed ac ni chaniateir mynediad i'r cyhoedd. Ar y llyn uchaf ger yr abaty gwelir Hwyaidd Copaog (Tufted Ducks), Mulfrain/Bilidowcar (Cormorants) a Gwyalch Mawr Copaog (Great Crested Grebes).

Gweddillion hen gastell mwnt a beili cynnar a adeiladwyd ar bileri coed yw'r domen goediog rhwng y llynnoedd. Mae 'camlas' hefyd rhwng y ddau lyn a adeiladwyd gan deulu Edwinsford..

Edwinsford

Adfail yw'r plasty erbyn hyn a rhoir peth gwybodaeth gefndir am y lle ar fwrdd gwybodaeth yn y safle bicnic ar y B4337.

Cyfieithiad yw Edwinsford a wnaed ar dir anwybodaeth. Rhydodyn yw'r enw gwreiddiol ond efallai bod teimlad nad oedd yn enw hwnnw yn ddigon crand ac fe'i ailfedyddiwyd yn Rhydodwyn ac yn Rhydedwin, gan gamdybio mai enw personol oedd Odwyn, a'i gyfieithu yn y diwedd yn Edwinsford. Digwyddodd rhywbeth tebyg i'r eglwys a elwir bellach yn Llanbadarn Odwyn; Llanbadarn Odyn oedd enw gwreiddiol yr eglwys.

Thomas Lewis, Talylylchau (1760-1842)

Yn ôl traddodiad lluniodd Thomas Lewis ei bennill 'Wrth gofio' i riddfannau'n yr ardd' pan oedd yn croesi'r caeau ger Talylylchau, ar ei ffordd i lanhau cloc ar fferm y Cilwr. Gof oedd Thomas Lewis wrth ei alwedigaeth a dywedir i'w eiriau gael eu canu am y tro cyntaf mewn cwrdd gweddi yn ardal Llansawel. Awgrymir bod dylanwad gwaith beunyddiol yr emynydd ar yr emyn hwn. Mewn rhai llyfrau emynau ceir dau bennill i'r emyn ond un pennill yn unig a gynhwysir yn Caneuon Ffydd.

Yn y dyfroedd mawr a'r tonnau,
nid oes neb a ddeil fy mhen
ond fy annwyl Briod Iesu
a fu farw ar y pren:
cyfaill yw yn afon angau,
ddeil fy mhen i uwch y don;
golwg arno wna im ganu
yn yr afon ddofon hon

Wrth gofio'i riddfannau'n yr ardd,
a'i chwfls fel defnyddau o waed,
aredig ar gefn oedd mor hardd,
a'i daro â chleddyf ei Dad,
a'i arwain i Galfari fryn,
a'i hoelio ar groesbren o'i fodd;
pa dafod all dewi am hyn?
Pa galon mor galed na thodd?

O anfeidrol rym y cariad,
anorchfygol ydyw gras,
digyfnwid yw'r addewid
bery byth o hyn i maes;
hon yw f'angor ar y cefnfor
na chyfnwid meddwl Duw;
fe addawodd na chawn farw,
yng nghlwyfau'r Oen y cawn i fyw.

Os hoffech gynorthwyo'r
gwirfoddolwyr gyda'r
gwaith o gynhyrchu'r papur
hwn, croeso i chi gysylltu
ag un o'r bwrdd busnes.



COMPASS
OFFICE
SUPPLIES

Am eich holl
ddeunydd swyddfa

Uned 19, Stâd Ddiwydiannol
Llambed, Heol Tregaron,
Llambed.

☎ 01570 422955
☎ 01570 422232

Ymgynghorwyr Yswiriant
Eryl Jones
Beth am gysylltu â ni am amcan-bris
i'ch holl anghenion yswiriant?

Car, lori, fan,
beic modur

Teithio

Cyfrifoldeb

Yswiriant tŷ/
cynnwys

Fferm a busnes

Anifeiliaid

Polisiau Cystadleuol i bob math o yswiriant,
cyngor a chefnogaeth yn rhad

Swyddfa'r Hen Fanc, 6 Stryd Fawr
Llanbedr Pont Steffan, SA48 7BA
Ffôn: **01570 422401**
Ffacs: **01570 422562**
Authorised & Regulated by The Financial Services Authority

Carpedi

Gwyn Lewis
Cyf

Cyflenwi a gosod:
Carpedi a Feinyl, Lloriau Diogel,
Cladinau Wal,
yn ogystal â Gwelyau,
Pennau Gwelyau a Rygiau.

43 Stryd y Bont
LLANBEDR PONT STEFFAN
Ffôn a Ffacs: **01570 423984**
Adref: **01570 423349**

Oes angen cyngor arnoch?
Mae gennym arbenigedd cyfreithiol
mewn sawl maes, megis:-

1. CYFRAITH TIR,
2. EWWYLLYSIAU A'U PROFIAINT,
3. TRETH ETIFEDDIAETH A
MODD I'W LEIHAW,
4. GWAITH LLYS O BOB MATH.

Os hoffech fwy o wybodaeth
mae croeso i chwi gysylltu â ni.

Arnold Davies
Vincent Evans
33 Stryd Fawr, Llambed
☎ 01570 422517 ☎ 01570 423244



Jen Jones, Prifweithredwr Adfywio, Bethan Lewis, Cadeirydd y Siambr Fasnach a Bryan Edwards, Rheolwr Technoleg ac Arloesi gyda chynllun ar gyfer safle'r hen fart yn Llambed.



Trigolion Maesyderi, Llambed ac aelodau o'r 'Neighbourhood Watch' newydd. Y cydlynwyr yw Carol Davies a Sue Davies, gyda PC Jo Grey a PCSO Ryan Jones.

LLEOL I MI Canolbarth PAPURAU BRO

NEUADD GOFFA

Mae rhannau o'r rhifyn hwn o CLONC ar safwe Cymru'r Byd y BBC:
www.bbc.co.uk/cymru/canolbarth/papurau_bro/clonc

CEFNOGI CLONC 2007

Y ffordd orau a'r mwyaf ymarferol o gefnogi eich papur bro yw trwy ymuno â Chlwb CLONC. Rydym yn ddibynnol iawn ar yr incwm. Diolch am gefnogi.

CLWB CLONC

Byddem yn gwerthfawrogi petaech yn talu drwy archeb banc. Mae'n hawdd. Llenwch y ffurflen isod a'i dychwelyd at yr Ysgrifenyddes.

Archeb Banc yn unig

At Rheolwr Banc y / Manager of

Cangen / Branch

Wedi derbyn yr archeb hon, telwch i FANC NATWEST Llambed 53 61 42 CLWB CLONC 03451526 y swm o £5, £10, £15, £20* NAWR ac yna ar y dydd cyntaf o Orffennaf bob blwyddyn nes y rhybuddiaf chi ymhellach, telwch y swm o

£5, £10, £15, £20

Enw llawn / Name

Cyfeiriad Llawn / Address

.....

Rhif y cyfrif / Account no

Dyddiad / Date ... / ... /07

Arwyddwyd / Signed

**** Rhowch gylch o amgylch y swm y dymunwch roi****

neu...

os am dalu ag arian parod neu siec, llenwch y ffurflen isod a'i dychwelyd at yr ysgrifenyddes cyn diwedd mis Gorffennaf os gwelwch yn dda. Plis, plis.

Amgaeaf tâl o £5, £10, £15 neu fwy.
**** Arian / Siec yn daliadwy i 'Glwb Clonc' ****

Enw:

Cyfeiriad:

.....

.....

CLWB CLONC
Gorffennaf 2007

£25 rhif 305:
Dafydd Llewelyn,
Gorsaf Dawel, Aberaeron

£25 rhif 401:
Mrs Dilwen Watkins,
3 Heol-y-Gaer, Llanybydder.

£20 rhif 263:
Tomos Rhys Jones,
Araul, Cwmann.

£20 rhif 430:
Mared Jones,
Dyffryn, Drefach.

£15 rhif 88:
Mrs Bet Davies,
Coedyglyn, Llanybydder

£15 rhif 243:
Mrs Sian Jones,
Bryndolau, Cwmann

£10 rhif 346:
Mrs Davina Rees,
Brynawelon, Mydroilyn

£10 rhif 337:
Mrs Mair Potter,
Rhoslwyn, Cwmsychpant

£10 rhif 53:
Mrs Betty Davies,
Bryncastell, Heol Llanfair,

£10 rhif 129:
Mrs Joan Evans,
Pennant, Rhodfa Glynhebog

£5 rhif 100:
Nia Wyn Davies,
Maesglas, Drefach

£5 rhif 98:
Dilwyn Davies,
Alwyn, Llanwnnen

Mae'n amser i ymuno â Chlwb Clonc nawr.
Cysylltwch ag Ysgrifennydd Clonc:
ysgrifennydd@clonc.co.uk



GŴYL Y BANC AWST 2007



ac EISTEDDFOD RHYS THOMAS JAMES

LLANBEDR PONT STEFFAN

Awst 24, 25, 26, 27 yn 40 oed

CYNGERDD AGORIADOL

yn NEUADD YR YSGOL GYFUN,
NOS WENER, AWST 24
am 7.30 o'r gloch

Artistiaid:

ALED HALL JONES
RHIAN MAIR LEWIS
ADASTRAS

Cyfeillydd: Eirian Jones

CÔR ABC

Arweinydd: Angharad Fychan

Llywydd:

Delyth Medi Lloyd, Caerdydd

Tocyn £5,

Plant Ysgol £2 wrth y drws

Noddir y gyngerdd
gan Douglas Bros. Ltd., Cwm-ann

DYDD SADWRN, Awst 25
am 12.15 o'r gloch

YR EISTEDDFOD

Llywydd:

Margaret Jones, Coedmor, Pen-bryn, Llambod

SUL, AWST 26 am 10.30 o'r gloch
OEDFA UNDEBOL
yng Nghapel Brondeifi, Llambod
yng ngofal Goronwy Evans

NOS SUL am 7 o'r gloch

yn NEUADD Y CELFYDDYDAU
PRIFYSGOL CYMRU LLAMBOD

LLAIS LLWYFAN

LLAMBOD

Gwobr gyntaf o £1000 yn rhoddedig gan
Jack Jones, Gellideg, Maes-y-Ilan, Llambod,
er cof am ei briod, Ray a'i fab, Brynmor

Llywydd:

Memr Jackson, Llandrindod

Tocyn £5

DYDD LLUN, AWST 27
am 11.45 o'r gloch

YR EISTEDDFOD

Llywydd:

Goronwy a Beth Evans, Y Mans, Stryd Newydd, Llambod

Y BABELL LÊN

EGLWYS SANT TOMOS

NOS LUN am 7 o'r gloch

CELF A CHREFFT

yng Nghampfa'r Ysgol

SADWRN a'r LLUN

Tocynnau i'r Wyl ar werth yn
SIOP Y SMOTYN DU, Stryd Fawr, Llambod
ar ôl Awst 6ed

Llangybi a Betws

Ysgol y Dderi

Llongyfarchiadau mawr i Dewi Uridge Fferm Coedparc, Silian, ar ennill y drydedd wobwr yn Eisteddfod Yr Urdd, yng Nghaerfyrddin. Daeth Dewi â chlod ac anrhydedd i'r ysgol ac ymfalchiwn yn ei lwyddiant.

Hefyd Bu Dewi yn perfformio'r unawd alaw werin yn 'Proms Ceredigion' ar nos Iau 21ain o Fehefin, ac yn canu yng nghôr Ceredigion ynghyd â Sofia, Naomi, Alis, Molly ac Aron. Da iawn chi blant.

Bu plant blwyddyn 1 a 2 yn 'Cysgu Cŵl' yn Mhentre Bach, Blaenpennal. Cafwyd gweithgareddau pwrpasol a digonedd o hwyl a sbri. Diolch o galon i Ifana ac Adrian am y croeso a'u gwaith caled, gwerthfawrogn eich ymdrechion.

Mae nifer o dripiâu addysgiadol wedi cymryd lle yn ystod y tymor i gyd fynd gyda'n thema. Bu adran y Cyfnod Sylfaen yn 'Amgueddfa'r Glannau' Abertawe yn gweld arddangosfa injan stem Trevithick. Bu blwyddyn 3 a 4 yng Nghastell Carew yn astudio'r Tuduriaid a blwyddyn 5 a 6 yn yr Eglwys Gadeiriol yn Nhŷ Ddewi fel rhan o'u hastudiaethau ar bererindod.

Diolch i bawb a ddaeth â chyfraniadau at gasgliad Mr Richard Burgess. Mae'n siwr bydd pobl Romania yn ddiolchgar am eich haelioni.

Mae nifer o gystadleuaeth pêl droed wedi cymryd lle yn ddiweddar. Dai awn chi, y bechgyn a'r merched a fu'n cynrychioli'r ysgol. Diolch hefyd i Mrs Sheila Pugh Davies am drefnu'r timoedd.

Mae Jamie Lee Maher, disgybl ym mlwyddyn 6 wedi derbyn gwobr 'gofalwr ifanc' am ei waith yn gofalu ar ôl ei dad-cu sydd mewn cadair olwyn. Rydym yn falch iawn ohonot ti Jamie.

Wedi'r glaw ofnadwy, daeth yr haul allan ar brynhawn ein Ffair Haf ar y 23ain o Fehefin. Cafwyd nifer o stondinau amrywiol a gweithgareddau i'r plant, megis castell sboncio, peintio wyneb, gweithgareddau syrcau a marchogaeth ceffyl.



Llywydd y prynhawn oedd Mr Sam Davies, gynt o Tynlloft Silian. Croesawyd ef gan gydgaideirydd y llywodraethwyr, Ted Brown. Derbyniwyd rhodd anrhydeddus gan Mr Davies tuag at goffrau'r ysgol, diolch galon i chi am eich caredigrwydd.



Enillydd y wisg ffansi orau oedd Elinor Griffiths, da iawn ti. Diolch yn fawr i Bwyllgor Rhieni ac Athrawon yr ysgol a drefnodd y diwrnod arbennig hwn.

Dymuniadau da i blant blwyddyn 6 sydd yn ein gadael ar ddiwedd y tymor i fynd i ysgol uwchradd. Mae wedi bod yn bleser i'ch cael yma yn Y Dderi. Cofiwch alw i'n gweld yn y dyfodol.

Dymunwn yn dda i Mrs Victoria Evans, Mr Islwyn Rees a Miss Stephanie Collum sy'n ein gadael ar ddiwedd y tymor. Diolch i chi'ch tri am eich cyfraniadau tuag at fywyd yr ysgol. Mawr yw ein colled ar eich hôl.



Yr Adnodd Gwledig - The Rural Resource

Cymorth AM DDIM i grwpiau cymunedol!

Gall CefnGwlad.org - Yr Adnodd Gwledig gynnig ...

... cymorth TG AM DDIM:

Cyngor cychwynnol (beth sydd arnoch ei angen, sut gall y dechnoleg eich helpu, ac ati) • Fforwm trafod preifat ar gyfer eich grŵp • Gwe-dudalen ar gyfer eich grŵp

... cymorth AM DDIM gyda digwyddiadau:

Gallwn drefnu neu hwyluso digwyddiadau ar eich rhan: Seminarau • Cynadleddau • Cyfarfodydd cyhoeddus • Ymgynghoriadau • Digwyddiadau crefft a thwristiaeth

... cymorth cyffredinol AM DDIM:

Ein gwefan • Defnydd o'n swyddfa yn Aberystwyth ar gyfer cyfarfodydd • Cymorth â gwaith ymchwil • Rhwydweithio • Prosiectau ffilm amrywiol

Am fanylion pellach ffoniwch (01970-625616),
e-bostiwch (post@cefn gwlad.org) neu ewch i'r wefan
(www.cefn gwlad.org).



Drefach a Llanwenog

C.Ff.I Llanwenog.

Dyma ni yn cyrraedd diwedd blwyddyn arall llawn bwrlwm a digwyddiadau ym myd y C.Ff.I. Bu'r clwb yn dathlu ein llwyddiant dros y flwyddyn trwy gynnal parti ar nos Wener y 15fed yng Nghefn-hafod. Cawsom farbeciw blasus a bu'r noson yn un hwylus llawn sbort. Pawb yn joio mas draw, yn ymlacio ar ôl blwyddyn brysur.

Ond wedi dweud hyn, mae un gystadleuaeth ar ôl. Sef y chwaraeon. Bydd diwrnod chwaraeon y Sir yn digwydd ar ddydd Sadwrn y 30ain yng nghaeau ysgol Llambled. Pob lwc i pawb!

Daeth llwyddiant mawr i un o arweinyddion ein clwb yn ddiweddar. Enillodd Mrs Elonwy Davies Tlws John a Ceridwen Hughes yn Eisteddfod yr Urdd. Mae cyfraniad Elonwy at Glwb Llanwenog yn amhrisiadwy, ac mae pawb o'r clwb yn eich llongyfarch yn fawr. Rydych yn llawn haeddu'r anrhydedd.

Bu bechgyn y clwb yn cystadlu yng nghystadleuaeth Tynnu'r Gelyn nos Wener y 22ain. Fe wnaeth y tîm yn dda iawn, gan ddod yn 2ail. Go lew chi!

Ar nos Fercher yr 20fed, bu rhai aelodau o'r clwb yn cystadlu ar raglen 'Glyn yn Galw' ar C2, Radio Cymru. Gorfod i ni gyflawni tair tasg, er mwyn ennill arian. A do, fe lwyddon ni i ennill £50 o wob, a chael noson llawn chwerthin a thynnu coes.

Hoffai'r clwb ddymuno'n dda i'r canlynol yn Sioe Frenhinol Cymru:

-Angharad Lewis- gosod blodau
-Angharad Isaac a Siwan Davies – coginio, -Menna Williams a Kevin Davies – barnu defaid. Pob lwc i chi gyd!

Cofiwch am gyfarfod blynyddol y clwb ar y 1af o fis Awst yn ysgol Llanwenog.

Eglwys Santes Gwenog.

Daeth cynulleidfada dda i'r Eglwys ar y 1af o Fehefin i fwynhau noson o adloniant, a chymdeithasu yng nghwmni Côr Meibion Cwmann. Cawsom ganu hyfryd iawn ac unawdau gan Kes Huysmann a Tudor Thomas. Yn ei anerchiad cyfeiriodd y ficer y Parch Bill Fillery i'r anrhydedd dderbyniodd Mrs Elonwy Davies, arweinydd y côr yn Eisteddfod yr Urdd yng Nghaerfyrddin. Diolch i Glwb Ffermwyr Ifainc Llanwenog am ei henwebu. Yn ystod y gyngerdd cyflwynodd Mary Thomas fasedd o flodau i Elonwy a blodyn i'r gyfeilyddes Elonwy Pugh. Diolch i wragedd yr Eglwys am baratoi lluniaeth i bawb ar ddiwedd y noson.

Cytunodd pawb fod gwersi 'Gosod Blodau' gyda'n hyfforddwraig Nicola o 'Cascade' wedi bod yn brofiad pleserus iawn.

Llongyfarchiadau i Keith a Lynne Goodall ar enedigaeth wyres fach yn Iwerddon. Dymuniadau gorau i'r teulu.

Yn anffodus dioddefodd Mrs Eva Davies, anffawd boenus yng Nghaerfyrddin; wedi iddi dreulio noson yn yr ysbyty mae bellach adref. Dymunwn adferiad llwyr a buan iddi.

Pob lwc i bobl ifanc y plwyf sy'n sefyll arholiadau; hyderwn bydd y canlyniadau yn dyst i'ch llafur caled.

Dymunwn longyfarch ein ficer sy'n cyrraedd pen-blwydd arbennig y mis yma. Dymunwn flynyddoedd eto o iechyd a hapusrwydd i chi a'ch priod.

Clwb 100: £15 Mrs Pat Mealing.
£10 Dr Ruth Blake, Iwerddon. £5.
Alan Mellor, Rhiwsionisaf.

Y Gymdeithas Hŷn.

Aethom ar ein taith fisol ar Fehefin y 13eg i Fachynlleth. Roedd yn ddiwrnod marchnad yn y dref a'r brif strydoedd yn llawn o stondinau amrywiol. Roedd cyfle am fwyd cyn cerdded o gwmpas i chwilio am fargeinion. Wedi treulio amser hwylus daeth yn amser troi yn ôl am Aberystwyth a threulio gweddill yr amser yn y dre. Cyn cychwyn am adre cafwyd pryd o fwyd blasus iawn yn y 'Marine'.

Ar yr 11eg o Orffennaf byddwn yn ymweld â'r Gŵyr – gadael Llambled am 8.30 y.b. Ar Awst y 1af bydd ein taith yn mynd â ni i Gastell y Waun (Chirk), nepell o Langollen. Bydd y bws yn gadael Llambled am 7.30 y.b.

Arholiad Piano

Llongyfarchiadau i Sioned Hatcher ar basio arholiad piano gradd 2. Pob lwc i ti i'r dyfodol.

Rhifyn mis Medi
Yn y Siopau
Medi 6ed
Erthyglau i law erbyn
Awst 23ain
Newyddion i law
erbyn
Awst 28ain

D Aled Evans Plymwr a Pheiriannydd Gwresogi



Gosodwr a Chynhaliwr

- Systemau gwresogi
 - Baddonau a chawodydd
 - Gwresogyddion mewn lloriau
 - Gwasanaeth cynnal a gosod boileri a'u hatgyweirio
- Ffôn/Ffacs 01267 253230 neu 07966 592 183**

Ysgol Llanwenog

Bu plant Blwyddyn 5 a 6 yn Felinfach yn ddiweddar i weld Cwmni Arad Goch yn perfformio 'Rhieni Hanner Call a Gwyrdd'. Roedd hwn yn amserol iawn gan ein bod fel ysgol newydd ymuno â'r Cynllun Ysgolion Eco.

Aeth Blwyddyn 5 a 6 i Ysgol Cwrtnewydd i gymeryd rhan mewn Cystadleuaeth 'Maths Magic'. Cafwyd tipyn o lwyddiant a llawer o hwyl.

Mae Rhian Jones, Blwyddyn 6 wedi bod yn mynychu Ymarferion gyda Chôr Ceredigion ac wedi cael profiad gwerth chweil. Mae'n dda i blant o ysgolion bach y wlad i gael canu gyda Chôr mawr.

Mae plant Blwyddyn 5 wedi bod yn mynychu'r Ysgol Uwchradd ar gwrs 'Gloywi Iaith'. Maent yn elwa o'r profiad, a hefyd yn cael siawns i gwrdd â'u cyfoedion o ysgolion eraill yn yr ardal.

Mae ein dyled yn fawr iawn i'r ddwy Gynorthwywraig sydd gennym yn yr ysgol, am ein hachub o lifogydd ar Nos Wener yng nghanol Mehefin. Roedd y plant wedi bod yn gwylio'r mell, cesair a'r glaw ac yn rhyfeddu at yr awyr ddu!

Yna pistyllodd y glaw gan grynhoi mewn i lyn ar waelod yr iard a thu allan i ddrws cefn yr ysgol. Daeth Mrs Enfys Morgan a Mrs Lorraine Davies i'r adwy gan gario sachau tywod i'r drws cefn er mwyn atal y dwr rhag myned mewn i'r adeilad. Gweithiodd y ddwy yn ddifrifol o galed er eu bod erbyn hyn yn wlyb hyd y croen! Yn y cyfamser roedd

galwad wedi ei wneud i'r Frigâd Dân, ond erbyn iddynt gyrraedd roedd y storm yn gostegu a'r dŵr yn cilio! Diolchwn yn fawr iawn i'r staff a'r holl rieni a ddaeth i roi cymorth yn yr awr dyngedfennol hon! Lwcus iawn na ddaeth y storm am 6.00 o'r gloch y bore!

Estynnwn groeso i Emma Herbert sydd newydd ymuno â'r Dosbarth Derbyn. Gobeithiwn y bydd yn hapus yn ein plith.

Diolch yn fawr i Mrs Elizabeth Fillery am ddod i wrando ar y plant hŷn yn darllen Saesneg. Maent yn mwynhau eu hamser yn ei chwmni, ac yn bendant yn elwa'n fawr o'r drafodaeth a gânt ganddi am eu llyfrau. Dywed hi hefyd ei bod yn mwynhau rhannu profiadau'r plant wrth ddarllen amrywiaeth eang o lyfrau.



Daeth ymwelwyr i'r ysgol o'n hysgolion cyswllt yn yr Almaen ac yng ngwlad Denmarc. Roedd yr athrawes o'r Almaen wedi bod yma o'r blaen ond roedd yn brofiad newydd i'r tair athrawes ifanc o Kolding Firscole yn Nenmarc. Er fod Cymru tua'r un maint â Denmarc mae'r tirwedd yn hollol wahanol gan fod Denmarc yn wlad wastad. Gwelson nhw wahaniaeth mawr hefyd, wrth gwrs, ym maint yr ysgolion, ond roedd y croeso twymgalon a gawson nhw yng Nghribyn ac yn Llanwenog yn fwy na gwneud lan am hyn. Mwynhaon nhw hefyd wledd a baratowyd iddynt gan ein Cogyddes yn Llanwenog, pryd y cafwyd cyfle i gwrdd â rhai o'r Llywodraethwyr.

Mae Miss Kate James, Myfyrwraig o Goleg y Drindod, wedi cwblhau ei hymarfer dysgu ola yn Nosbarth y Babanod yn ystod y Tymor. Bu'n gaffaeliad mawr i'r ysgol, gan serchu yn fawr yn y plantos bach a hwythau ynddi hithau! Dymunwn pob lwc iddi yn y dyfodol!

Dymuniadau da hefyd i Rhian Jones, a fydd yn dechrau yn yr Ysgol Uwchradd yn Llambled ym Mis Medi. Mae Rhian wedi cael gyrfa ddisglair yn yr Ysgol Gynradd ac edrychwn ymlaen i glywed llawer o bethau da amdani yn y dyfodol a diolch iddi am gytuno fod yn y Sioe ym mis Medi.

Llanwnnen

Gwellhad buan

Dymunwn wellhad buan i Richard Peacock, Llwynygroes Lodge sydd wedi bod yn Ysbyty Glangwili yn ddiweddar.

Hefyd dymunwn wellhad buan i Mrs Eva Davies, Or-nant sydd wedi cael triniaeth yn adran allanol yn Ysbyty Glangwili ar ôl cwmpo ar y stryd.

Da gweld fod y ddau adref ac yn gwella yn foddhaol.

Sefydliad y Merched

Ar brynhawn gwlyb ym mis Mai aeth aelodau'r mudiad ar eu taith ddirlgel flynyddol. Teithiwyd ar hyd glannau'r afon Teifi tua Chenarth ac yna ymweld â fferm Glyneathinog, cartre y caws enwog, Caws Cenarth. Cafwyd hanes byr am sefydlu'r busnes ac fel mae'r caws yn cael ei wneud. Yn anffodus nid oedd caws yn cael ei wneud ar ddiwrnod ein hymweliad, ond roedd yna ddigon o siamplau i'w profi. Gadael Cenarth ar ôl cwpanaid o de a theithio nôl am Landysul ac ymweld â Thelynau Teifi. Yna yng Nghanolfan y Delyn yn Llandysul mae cartref cynhyrchu telynau yng Nghymru. Sefydlwyd y cwmni gan Alan Shiers a sydd yn gwneud telynau ers dros 30 o flynyddoedd, yn awr mae yn falch iawn o gael rhannu ei wybodaeth a'i gyfrinachau gyda chenedlaethau newydd o grefftwyr a phrentisiaid i'w cadw ar gyfer yr oes â ddêl. Daeth y daith i ben gyda swper yn y Porth, Llandysul.

Mr Julian Evans o Lamed oedd ein gŵr gwadd ym mis Mehefin a chafwyd noson ddiddorol iawn yn ei gwmni. Wedi ei eni ar fferm Felinfach, Pencarreg, soniodd am ei ddyddiau cynnar yn ysgol sydd wedi cau ers blynyddoedd bellach – cyn mynd yn athro ei hun mewn ysgolion cynradd yn Sir Benfro, ac yna ymlaen yn ddirprwy Bennaeth yn Ysgol Ffynnonbedr. Erbyn heddiw mae Mr Evans yn ŵr busnes llwyddiannus ac ef fu yn gyfrifol am sefydlu cwmni bwys 'The Knobby Carot' ac yna agor y bwyty 'Ling di long' yn Llamed. Diolchwyd yn gynnes iddo gan Mrs Doris Jones ac enillwyd y gystadlaeth gan Mrs Alice Davies a Mrs Ceinwen Roach.

Ysgol Llanwnnen

Bore dydd Gwener, 8fed o Fehefin croesawyd yn gynnes yr awdures Elin Meek o Abertawe i'r ysgol atom. Bu'n siarad gyda disgyblion Bl.2 hyd Bl. 6. am eu gwaith dyddiol o gyfieithu ac addasu llyfrau i'r Gymraeg. Dywedodd eu bod wedi ysgrifennu, cyfieithu neu addasu dros 80 o lyfrau. Roedd hi'n hyfryd cael ei chwmmi.

Aeth adran Iau yr ysgol i fyny i Lyfrigell Genedlaethol Cymru yn Aberystwyth ar brynhawn ddydd Llun, Mehefin 11eg. Roedd yr

wythnos yn rhan o ymgyrch Darllen Miliwn o Eiriau.

Nos Iau, 21ain o Fehefin bu bechgyn Blwyddyn 6 yn ran o Gôr Bl. 6 a oedd yn canu yn Proms Ceredigion yn y Neuadd Fawr, Aberystwyth.

Bu dosbarth Mrs Llwyd a'u rhieni draw yn Aberaeron ar ddydd Gwener, 22ain o Fehefin fel rhan o'i gwaith Daearyddiaeth yn cymharu pentref Llanwnnen a thref glan môr Aberaeron. Cafwyd diwrnod da yno.

Dydd Gwener, 22ain o Fehefin aeth yr adran Iau i lawr i Wersyll yr Urdd, Llangrannog i fod yn ran o ddiwrnod dathlu y Gwersyll yn 75 oed. Cafwyd jambori yn y bore gyda Gwenda Owen, gollyngwyd balwnau coch i ffwrdd yn yr awyr ar ôl cinio a thwmpath dawns ar y cae yn y prynhawn.

Bu holl ddisgyblion Bl. 5 a 6 yr ysgol ynghyd â Mr Evans, Miss Davies a Miss Mineira i lawr yng Ngwersyll yr Urdd, Caerdydd am dridiau ar ddiwedd mis Mehefin.



Buom yn Stadiwm y Mileniwm, Canolfan y Mileniwm, Bowlio Deg, Cynulliad, Techniquet, Taith Awyr Agored mewn bws, Sain Ffagan a'r Pwll Mawr. Roedd y tridiau yma yn rhai prysur iawn ac fe gafodd pawb amser da i lawr yn y brifddinas. Diolch i Anwen Eleri, Swyddog Datblygu'r Urdd yng Ngheredigion am drefnu'r daith.

Ar ddydd Mercher, 27ain o Fehefin ffarweliwyd â Miss Rebecca Deal o Felinfach a fu yn yr ysgol yn gwneud ymarfer dysgu o Goleg y Drindod am gyfnod gennym. Pob lwc i chi Miss Deal i'r dyfodol.

Hefyd, ar ddiwedd tymor yr haf byddwn yn colli 5 o fechgyn sydd ym mlwyddyn 6 sef Nicholas, Emyr, Curtis Lyn, Curtis Jay a Tommy. Pob lwc i chi yn Llamed ym mis Medi.

Adran yr Urdd

I ddiweddu blwyddyn o Adran yr Urdd, penderfynwyd mynd am drip i lawr i Wersyll yr Urdd, Llangrannog i sgïo a gwigartio. Roedd y tywydd yn sych pan wnaethom gyrraedd ond ar ôl i ni droedio allan yn ein sgis – agorodd y nefoedd a thywalltodd y glaw am awr a hanner tra bum yno. Serch y glaw cafodd pob un fwynhad yn sgïo neu yn gwigartio yn y glaw. Roeddem i gyd yn wlybiferu ac yn falch iawn o weld Llanwnnen i fynd adre i gael cawod dwym!!



Plant Ysgol Llanwnnen yn arddangos llyfrau o eiddo'r awdures ar ymweliad - Elin Meek.

Pencarreg



Seren y Dyfodol

Llongyfarchiadau i Sian Elin, Muriau Gwyn ar ei pherfformiad gwych fel un o brif gymeriadau'r Sioe Gynradd "O Bren Braf" yn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd Sir Gâr. Roedd yn chwarae rhan arweinydd y merched ac yn byw y cymeriad o'r dechrau i'r diwedd – gwelwyd ei dawn ryfeddol fel actores ifanc.

Roedd ei pherfformiad yn un egniol brwdfrydig ac yn llawn hyder ac roedd yn amlwg yn mwynhau bob eiliad ar y llwyfan mawr. Yn sicr dyma seren y dyfodol.

Mae Sian Elin wedi dechrau ar ei thymor cyntaf fel aelod o Ysgol Berfformio Dyffryn Tywi. Pob lwc i ti Sian Elin i'r dyfodol.

Gwellhad Buan

Dymunwn wellhad buan i Mrs Lynda Thomas, Dolgwm Uchaf ar ôl iddi dreulio rhai wythnosau yn Ysbyty Glangwili yn derbyn triniaeth. Gobeithio eich bod chi yn teimlo tipyn yn well erbyn hyn.

Cymorth Cristnogol

Bu Ruth Jones yn ddiwyd iawn yn ddiweddar yn casglu tuag at Gymorth Cristnogol. Mae Ruth am ddiolch i bawb o'r ardal a fu mor hael eu cyfraniad. Daeth y swm terfynol i £63.57. Canmolwn Ruth am wneud y gwaith gan mae nid ar chwarae bach mae casglu'r swm yma ac mae'n mynd at achos da.

Creyr Bach (Little Egret)

Hwyr prynhawn braf yn nechrau mis Mai oedd hi a minnau yn croesi'r Teifi ar waelod dŵl Melin-ddŵl-gwm pan welais yr aderyn hardd yn hamddena yn y dŵr bas ar ochr y geulan. Aderyn lluniaidd a gwyn fel y lili. Gan fod gen i ddiddordeb ym mywyd gwyllt ac yn mwynhau gweld adar yn arbennig, roeddwn yn adnabod enw'r aderyn ar unwaith. Syllais arno wedi fy syfrdanu oherwydd dyma'r tro cyntaf erioed i mi weld yr aderyn yma ar lan y Teifi. Ar ôl gwneud gwaith ymchwil mae'n debyg ei fod yn arfer bod yn brin ym Mhrydain ond ei fod wedi ymgartrefi ledled y wlad bellach. Tybed a oes rhywun arall wedi gweld yr aderyn prydferth yma ar lan y Teifi.

L. Thomas, Dolgwm-Uchaf

Diolch


Dymuna Sian Elin, Muriau Gwyn ddiolch am yr holl gardiau a'r dymuniadau da ac i bawb ddaeth i'w gweld yn perfformio yn y Sioe gynradd "O Bren Braf" yn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd Sir Gâr. Gwerthfawrogi eich caredigrwydd a'ch cefnogaeth yn fawr iawn.



Dôl-Mebyd
Pencarreg
Llambed

Annwyl Ffrindiau

Sut ydych chi? Gobeithio eich bod chi gyd yn go lew a heb wlychu gormod gyda holl law y mis diwethaf. Wel mae'n bleser fel arfer i weld cynifer dda ohonoch wedi rhoi cynnig arni, rhai ohonoch yn ifanc iawn! Mae clod arbennig y mis hwn yn mynd i Nia Haf Thomas ac i Tristan Evans o Lanybydder, ond yn dod i'r brig y tro hwn mae Miriam Butcher, 11 Dyffryn Ave, Lakeside, Caerdydd. Da iawn a llongyfarchiadau mawr i chi gyd. Cofiwch fynd ati i liwio llun y mis hwn a'i ddanfôn ataf erbyn Awst 20fed. Hwyl am y tro – Mwynhewch wyliau'r Haf.



**Enillydd
y mis!**

Miriam
Butcher

Enw:

Cyfeiriad:

Welsh
Country
Foods

am
Llamb
& Link

WELSH COUNTRY FOODS Ltd

GAERWEN, YNYS MON

Eisiau ŵyn a hen ddefaid o bob math o bwysau yn ddyddiol



Eich manteision:

- Pris da pob amser
- Gwasanaeth gan ein swyddogion maes profiadol yn rhad ac am ddim
- Cwmni annibynnol yr MLC yn pwyso a graddio'r wyn
- Telir bonws o £1 yr oen am ŵyn sydd yn "Farm assured" o fewn y pwysau 15kg i 21kg a wedi graddio yn E2, E3L, U2, U3L, R2 a R3L.
- Telir bonws am ŵyn sydd yn graddio yn E2, E3L + 15c/kg yn ychwanegol a U2, U3L + 8c/kg yn ychwanegol
- Mae gennym enw da am dalu yn gyflym
- Cludiant am ddim i'r lladd-dy.
- Mae gennym sawl lle i gasglu'r stoc yn eich ardal chi.

Am werthu hen ddefaid ar eich fferm heb gostau?
Cysylltwch â'n swyddfa da byw yng
Ngaerwen:

- ☎ 01248 421111 (Est 100 a 102)
- Adrian Roberts ☎ 07967 677479
- Cyd-lynnydd Da-Byw ☎ 07967 987775

A oes diddordeb gennych mewn ymuno â'n
tîm profiadol o swyddogion maes –
galwch y Rheolwr da byw sef
Adrian Roberts am sgwrs anffurfiol.

Dawns Haf Fawreddog Ffynnonbedr



Codwyd dros £5,000 tuag at Apêl Hwyl a Sbri Ysgol Ffynnonbedr yn y Ddawns Haf a gynhaliwyd yn y coleg, gan gynnwys sicc o £750 gan Fanc Barclays.

Carnifal Llanwnnen



Yn 30ain Carnifal Blynyddol Clwb Ieuenctid Llanwnnen ar yr 2ail o Fehefin, enillwyr cwpan y pâr gorau oedd Elizabeth (Emma Newton) and Jack Sparrow (Ryan Holmes).



Prif enillydd yng ngharnifal Llanwnnen oedd Ellen Jones, enillydd dosbarth merched 7-8 oed ar y thema 'ailgylchu'.

Diwrnod Hwyl Llanllwni



Diwrnod Hwyl yn Llanllwni i godi arian i Ysgol Feithrin Llanllwni, Ysgol Gynradd Llanllwni a Ward y Plant Ysbyty Heath Caerdydd. Bu Kevin Evans a Dorian Rees yn arddangos ceir Rali GB. Enillodd Aled Eynon daith yn y 'Subaru Impreza' drwy docyn raffl ac enillodd Llyr Jones ei daith yn yr ocsiwn.